
MELIN
DRAFOD

CYHOEDDWYD GAN MELIN DRAFOD © 2023
melindrafod.cymru

CEDWIR POB HAWL.

ARGRAFFWYD YNG NGHYMRU
GAN GWASG SEROL, CASTELL NEDD

PUBLISHED BY MELIN DRAFOD © 2023
melindrafod.cymru

ALL RIGHTS RESERVED.

PRINTED IN WALES
BY SEROL PRINT, NEATH



RHAGAIR – PREFACE

Testun y llyfr hwn yw llywodraethiant Cymru – neu'n fwy penodol, diffyg llywodraethiant addas i Gymru ers erioed, a'r holl oblygiadau sy'n deillio ohono. Mae hi'n amlwg dros ddegawdau a thros ganrifoedd mai nod llywodraethu Cymru yw anfon ei chyfoeth dynol a cyllidol i Loegr a'i thrin fel rhanbarth ohoni, ac i'w gostwng hi'n raddol i'r statws hwnnw. Dyna sy'n sefyllfa naturiol a thyngedfynnol iddi hi o bersbectif y wlad nesaf â'i phoblogaeth a'i hadnoddau llawer mwy na rhai Cymru. Drwy gyd-fynd, gwnawn ddifrod cynyddol i eiddo'r wlad, i'w phobl, i'w diwylliant, ac i'w hiaith. Ond nid Lloegr na'i phobl hi yw'r gelyn ond y ddiffyg hyder i ddatgan bod Cymru yn wahanol a nad yw'n wasanaeth i'w phobl i barhau i wrthod datblygu llywodraethiant priodol iddi ar

The subject of this book is the governance of Wales – or, more specifically, the ongoing lack of suitable governance in Wales, and all its consequences. It has been obvious for decades and for centuries that the purpose of governing Wales is to send its human and financial wealth to England as if it were one of its regions, and to reduce it gradually to that status. This is its natural fate from the perspective of the neighbouring country with its larger population and resources than those of Wales. By consenting, we cause ongoing damage to the country's wealth, its people, its culture and its language. But the enemy is not England and its people, but the lack of confidence to declare that Wales is different and that it does not serve its people to continue to refuse to develop appropriate governance on the excuse of solidarity. What solidarity, what comradeship

esgus cydsefyll. Pa gydsefyll, pa gymrodoriaeth sy'n dal i ddifrodi'r partner llai er lles y partner mwy, eilwaith a thrachefn?

Ond mae'r cyfranwyr i'r gyfrol hon wedi tynnu sylw yn llawer manylach at natur y goblygiadau penodol, sy'n difrodi nid yn unig Cymru ond pob un trigolyn ohoni, sef y Cymry, yn ddiwylliannol a, dadleuir, yn foesol. Mae llywodraethiant presennol Cymru'n peri anghydraddoldeb cymdeithasol sydd wastad yn dyfnhau ac yn achosi tlodi a dioddefaint, sy'n galluogi hiliaeth a senoffobia, ac sy'n difrodi eiddo amgylcheddol y wlad a'i dyfodol ymhlith y gwledydd annibynnol. Ni fedrwn barhau fel hyn. Os triwn, ni fydd na Chymru na phobl lwyddiannus, iach ar ôl lle bu hi. Yn hytrach, amlinellwn ddyfodol iach i'r wlad fach hon a'i phobl.

Dr Talat Chaudhri,
Cadeirydd, Melin Drafod

continues to destroy the smaller partner for the benefit of the larger, again and again?

But the contributors to this volume have drawn attention in much greater detail to the specific consequences, which damage not only Wales but everyone living here, the Welsh, culturally and, it is argued, morally. The present governance of Wales causes constantly worsening social injustice and creates poverty and suffering, enables racism and xenophobia, and erodes the environmental wealth of the country and its place among independent countries. We cannot continue like this. If we try, there will be neither a Wales nor a successful, healthy people left where it once was. Instead, we outline a healthy future for this small country and its people.

Dr Talat Chaudhri,
Chair, Melin Drafod

CYNNWYS – CONTENT

JOSEPH GNAGBO 7
BREUDDWYDION Y FFOADUR

SIONED WILLIAMS 11
ANNIBYNIAETH: LLENWI'R FFRÂM WAG

BECA BROWN 15
YN Y CREU MAE'R CYFLE

CERITH GRIFFITHS 19
WORKERS RIGHTS

NAOMI HUGHES 23
FY NGHYMRU I

EMYR LEWIS 27
CYRRAEDD YN DDIOGEL

JULIE BROMINICKS 31
CUBA, COSTA RICA AND CYMRU

ERIC NGALLE CHARLES 35
HOLES IN MY MOTHER'S HOUSE.

LISBETH MCLEAN 39
DATBLYGU A GWEITHREDU CYMUNEDOL

ADAM PRICE 43
NATION OF EQUALS

CARYS ELERI 47
CYMRU. CYFARTALEDD. CAREDIGRWYDD.

NORENA SHOPLAND 53
DIVERSE INDEPENDENCE

JON GOWER 57
Y BERLLAN

NIA EDWARDS-BEHI
MAE POB UN OHONOM YN BETHAU BYCHAIN 61

JOHN BARNIE
INDEPENDENT WALES 65



Rhai o fy mreuddwydion am Gymru
Fel ffoadur sy'n byw yng Nghymru, hoffwn rannu fy marn am y ddeinameg gymdeithasol a gwleidyddol gyfredol a welais a'm breuddwydion ar gyfer y dyfodol yn y tri maes canlynol: Mewnfudo, polisïau cenedlaethol a materion tramor.

Gwerddon o letygarwch
"Gardd yw Ewrop. Jyngl yw gweddill y byd [...]". Yn lle dicter, sy'n gwbl ddealladwy, cododd y datganiad hwn gan ffigwr blaenllaw o'r Undeb Ewropeaidd gwestiynau ynof i ynghylch ei wirionedd yng ngoleuni realiti, hynny yn benodol o safbwynt ceisiwr lloches. Os cymerwn olwg ar lefel y gefnogaeth sydd ar gael i "mewnfudwyr", rwy'n defnyddio'r term a dderbynnir o hyn ymlaen, y lefel o oddefgarwch neu elyniaeth tuag atynt, rwy'n amau'n fawr fod yr Hen Gyfandir yn ei gyfanrwydd yn dal i edrych fel y lle heddychlon, paradwysaidd yr arferai fod. Mae'r nifer cynyddol o ymfudwyr sy'n peryglu eu bywydau ar gwch i'r Deyrnas Gyfunol, gan redeg i ffwrdd o leoedd yn Ewrop fel "jyngl Calais" yn enghraifft amlwg a diriaethol o'r ffaith hon. Ar ben hynny mae dadansoddiad cymharol 2022 gan Silke Goubin,

BREUDDWYDION Y FFOADUR **JOSEPH GNAGBO**

Anna Ruelens ac Ides Nicaise ar y 'Tueddiadau mewn agweddau tuag at fudo yn Ewrop' yn pwyntio at y cylch dieflig rhwng yr awyrgylch elyniaethus cynyddol tuag at ymfudwyr a thuedd llunwyr polisi i weithredu rheolau mudo llymach. Nawr os yw'n ymddangos mai'r Deyrnas Gyfunol yw'r wlad a addawyd ar gyfer pobl sy'n cael eu herlid neu sydd dan fygythiad bywyd yn eu mamwlad, mae Cymru drwy weithredu ei gweledigaeth o Genedl Noddfa, a gallaf ei gadarnhau hynny ar sail fy mhrofiad personol, yn parhau i fod yn eithriad yn y rhanbarth Ewropeaidd o ran lletygarwch. Mae'r dewis hwn yn uchelgeisiol ac yn hanesyddol mewn byd lle mae cyni economaidd a phwysau cymdeithasol yn cynyddu'n barhaus ac nid yw Cymru yn eithriad yn hyn o beth. Tlodi plant, heneiddio'r boblogaeth, anghyfartaledd o ran mynediad at wasanaethau ysbyty ac anghyfartaledd rhanbarthol sy'n achosi ymadawiad gwledig, mae'r heriau yn niferus.

Paratoi'r ffordd i'r Genedl Noddfa
Yn sicr, nad oes angen i Gymru fod yn berffaith, ond mae gwireddu'r weledigaeth o Genedl Noddfa yn bendant yn mynnu bod y wlad yn lleddfu ei phwysau economaidd a chymdeithasol. I'r nod hwn, nid oes dim yn well nag economi lewyrchus a diwylliant bywiog. Yn hyn o beth mae gan y wlad botensial sylweddol. Iaith fyw i hybu diwylliant a hunaniaeth Gymreig, sîn adloniant bywiog, gyda cherddoriaeth werin draddodiadol, pop a roc modern, llenyddiaeth Gymraeg, barddoniaeth, a drama â hanes hir a chyfoethog. Mae chwaraeon fel rygbi'r undeb, pêl-droed a chriced yn boblogaidd yng Nghymru, ac mae'r timau cenedlaethol yn dod â phobl ynghyd ar draws gwahanol grwpiau cymdeithasol gan wella ysbryd cymunedol. Mae Cymry yn adnabyddus am eu cynhesrwydd, eu cyfeillgarwch, a'u hymdeimlad cryf o undod. Mae'r tirweddau naturiol syfrdanol, gan gynnwys mynyddoedd, arfordiroedd, a pharciau cenedlaethol sy'n destun balchder ac ysbrydoliaeth i Gymry, yn atyniad mawr i dwristiaid o bedwar ban byd. Wrth adolygu'r asedau hyn, gall un sylwi ar amlygrwydd y ffactor dynol.

Goresgyn gwladychu meddwl
Mae'n wir bod adeiladu dyfodol cenedl ar y ffactor dynol yn ddymunol, ond weithiau dyna lle mae'r gwendid mwyaf hefyd. Fel person sy'n dod yn wreiddiol o wlad o'r enw "Cote d'Ivoire" yng nghanol Affrica, cefais gyfle i arsylwi ar effaith negyddol treftadaeth ar ganfyddiad pobl o'r hunan, a hyder yng ngallu'r genedl i gyflawni ei nodau. Disgrifir y cyflwr meddwl hwn yn gywir gan Sawel ap Harri pan mae'n nodi cred llawer o bobl Cymru "ein bod yn rhy fach, yn rhy dlawd ac yn rhy ddiddysg i fod yn annibynnol." Ar ôl y diagnosis mae ap Harri yn ein hatgoffa o'r angen hanfodol am "fodel economaidd

sy'n rhoi pobl Cymru yn ei graidd".
Cynhwysiant angenrheidiol
Y bobl yn ei graidd ac wrth gwrs mewn modd cynhwysol ac anwahaniaethol. Dyma amod ar gyfer llwyddiant a bwysleisiwyd gan Daron Acemoglu a James A. Robinson yn "Why Nations Fail". Mae'r ddau awdur yn dadlau bod gwledydd sydd â sefydliadau cynhwysol, sy'n annog arloesi a chyfranogiad, yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus na'r rhai â sefydliadau echdynnol, sy'n canolbwyntio pŵer a chyfoeth yn nwylo ychydig.

Gwlad Orllewinol, ond nid yn ormodol
Polisi tramor - yn seiliedig ar y dybiaeth fod Cymru yn annibynnol – yw'r agwedd allweddol arall ar wleidyddiaeth Cymru. Yn hyn o beth mae'r gwrthdaro yn yr Wcrain yn dod â dwy ffaith i'r amlwg.
Yn gyntaf mae'r byd yn symud o drefn unbegynol i un amlbegynol a nodweddir gan ymddangosiad pwerau newydd a rhyddfreinio cyn-ranbarthau o dan dra-arglwyddiaeth draddodiadol y Gorllewin. Daw'r broses hon gyda chyfleoedd newydd o gydweithrediad ennill-ennill ac o ddylanwadu ar y gêm wleidyddol ryngwladol. Yn ail, syndrom Ciwba a Mecsicanaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob gwlad sy'n gymydog i bwer gwych gymryd y realiti hwnnw i ystyriaeth. Er enghraifft, wrth ddyfeisio ei pholisïau diogelwch rhaid i wledydd llai ystyried fel y mae diogelwch yn effeithio ar y pŵer mawr cyfagos. Mae pwerau mawr y Gorllewin yn amgylchynu Cymru a byddai'n fanteisiol i'r wlad ddarparu ar gyfer buddiannau pob un. Fy ngobaith o ran polisi tramor fydd gweld Cymru'n manteisio ar gydweithrediad gyda ei chymdogion a dod o hyd i'r cydbwysedd perffaith rhwng ei rhyddid i gydweithredu'n effeithlon ag unrhyw wlad yn y byd a chadw perthynas heddychlon â nhw.

Cafodd Joseff Gnagbo ei fagu yn yr Arfordir Ifori, ond bu'n rhaid iddo geisio lloches yng Nghymru oherwydd aflonyddwch gwleidyddol. Roedd wedi gweithio fel ieithydd yng ngorllewin Affrica, ac yn siarad Ffrangeg, Swahili, Eidaleg, Rwsieg, Almaeneg ac Arabeg yn ogystal. Wedi iddo gyrraedd Cymru yn 2018, fe drochodd ei hun yn niwylliant Cymru, gan ddod yn rhugl yn y Gymraeg ac mae bellach yn addysgu Cymraeg sylfaenol i geiswyr lloches eraill.



Ffrâm wag yw 'Annibyniaeth' (neu, yn nhermau beirniadaeth ddiwylliannol, '*empty signifier*'). Dyma ran o'i rym wrth gwrs; gall pobl ar draws y sbectrwm gwleidyddol gefnogi 'Annibyniaeth i Gymru'. Ond a fu erioed fudiad cenedlaethol llwyddiannus heb wreiddiau mewn traddodiad gwleidyddol penodol, a heb weledigaeth o ffurf a gwerthoedd y genedl wedi annibyniaeth? Anodd dychmygu Castro yn gorymdeithio i Havana gan arddel '*annibyniaeth yn gyntaf ac yna cawn benderfynu ar werthoedd ein cenedl*'. Neu'r ANC yn cyflwyno dadl gyffelyb tra bod Mandela yn y carchar. Wrth gwrs, nid yw mudiad dros annibyniaeth yn rhwym o leoli ei hun ar y Chwith yn wleidyddol. Nid dadlau dros '*annibyniaeth yn gyntaf a wedyn cawn benderfynu*' wnaeth Vytautas Landsbergis, ond arddel polisiau economaidd neo-Thatcheraidd yn y Lithwania newydd annibynnol.

Mae brwydr rhwng gweledigaethau gwahanol o'r dyfodol felly'n rhwym o ddigwydd o fewn mudiad democrataidd dros annibyniaeth. Ar y Chwith ddemocrataidd dylem groesawu hynny gan gyflwyno dadleuon cryfach a'u cyflwyno'n rymusach na'r Dde ar sut y gall annibyniaeth newid bywyd bob

ANNIBYNIAETH: LLENWI'R FFRÂM WAG

SIONED WILLIAMS

dydd trigolion Cymru yn unol â gwerthoedd Sosialaeth. Nododd sawl sylwebydd i ymgyrch 'Ie' yr Alban symud yn ddramatig i'r Chwith wrth iddi godi stêm yn 2014, gan adael yr SNP o'i hôl. Mae'n allweddol felly i'r Chwith o fewn y mudiad annibyniaeth yng Nghymru ddisgrifio a chyfathrebu ei gwleledigaeth ar gyfer sut i greu y genedl y mae am ei ffurfio, ac esbonio pam fod annibyniaeth yn allweddol er mwyn creu cenedl gyfiawn a chynaliadwy.

Mae gan Blaid Cymru ddarlun clir ar gyfer cynnwys y ffrâm. Mae dileu tlodi drwy greu system economaidd sy'n gyfrwng ar gyfer cyflawni cyfiawnder cymdeithasol, lles cymunedol a chynaliadwyedd amgylcheddol a sicrhau system les bwrpasol, teg ac urddasol yn ganolog i'n gweledigaeth ar gyfer y math o fywyd y gallai'r Gymru annibynnol gynnig i'w dinasyddion. Heb annibyniaeth ni fydd dinasyddion Cymru byth yn medru dianc rhag y niwed difrifol sy'n cael eu hachosi gan lefelau argyfyngus o dlodi - tlodi sy'n cael ei achosi gan y ffaith eu bod ar drugaredd llywodraethau olynol San Steffan. Os oes gan San Steffan unrhyw rym dros Gymru, o dan unrhyw fodel arfaethedig o '*wneud yr Undeb yn decach*', ni fydd modd gwarantu newid sy'n barhaol na'n bell-gyrrhaeddol o ran cyflawni Cymru gydradd a chyfiawn. Cofiwn bod mwy o lywodraethau Ceidwadol wedi bod gan y Deyrnas Gyfunol dros y ganrif ddiwethaf nag unrhyw liw arall, a'r gwir yw heddiw fod y Toriaid yn Blaid sy'n bodoli ar y Dde galed. Eu bwriad ideolegol yw sicrhau elw a mantais i'r cyfoethocaf, gyda'r tlotaf yn talu'r pris am hynny.

Y cwestiwn allweddol ar gyfer sosialwyr Cymreig sy'n wleidyddion Llafur yw pryd y byddant yn sylweddoli bod eu lleisiau yn cael eu mygu, nad oes ganddynt unrhyw ddylanwad ar eu plaid, a bod y grym pleidiol yn Llundain? Pryd byddant yn deall nad chwarae rhyw gêm wyddbwyll etholiadol graff mae Keir Starmer wrth ysgrifennu yn y wasg asgell dde bod modd '*gwneud i Brexit weithio*' er gwaethaf y ddinistr economaidd y mae'n ei greu, a'r ffaith mai'r dosbarth gweithiol sy'n teimlo effaith hynny fwyaf? Nid yw Llafur Starmer chwaith yn gweld problem gydag agwedd annynol y Toriaid ar rwystro mewnfudo "anghyfreithlon" tu hwnt i'r ffaith eu bod yn aneffeithiol wrth wneud hynny. Sut gallwn wireddu nod Cymru o fod yn Genedl Noddfa, sy'n croesawu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad ffoaduriaid a cheiswyr lloches i'n cymunedau heb ein bod yn medru llunio a gweithredu ein polisiau a gweithdrefnau mewnfudo ein hunain?

Byddai Llywodraeth Lafur yn San Steffan hefyd yn dilyn yr un trywydd â Sunak wrth wrthwynebu hawl democrataidd Senedd yr Alban i gyflwyno deddfwriaeth i ymrymuso hawliau pobl traws. Yn wyneb y fath ddyfodol, a diffygion model wleidyddol y Deyrnas Gyfunol, mae dadleuon Llafur Cymru dan Mark Drakeford dros 'ddiwygio'r' Undeb yn

rhai gwag ac aneffeithiol. Os ydym am wireddu gweledigaeth Sosialaidd o greu Cymru gyfartal a theg, yn enwedig i'r rheiny sy'n dioddef anfantais anghymesur yn sgil effaith anghydraddoldebau croesdoriadol, mae'r briwsion o gynigion a geir yng nghynllun Gordon Brown i wneud hynny yn gwbl annigonol ac nid yw ei *Alliance for Radical Democratic Change* yn ddim mwy nag ail-drefnu'r cadeiriau ar y Titanic.

Tuedd rhai mudiadau sydd wedi ei seilio ar hunaniaeth yw creu gwleidyddiaeth neilltuedig; ein pobl 'ni' yn unig; dim lle i fenywod; dim lle i aelodau LHDTC+. O fewn diffiniad neilltuedig o'r Cymry y gorwedd yr ysfa dros annibyniaeth mewn gwleidyddiaeth o'r fath, a chenedlaetholdeb Cymreig yn sgil hynny yn adlewyrchiad o drefn hierarchaidd anghyfiawn y cenedlaetholdeb neo-imeperialaidd Brydeinig y mae'n brwydro yn ei herbyn. Gorwedd perygl mudiadau cenedlaethol lleiafrifol, yn ôl yr hanesydd diwylliannol Americanaidd Eric Lott, yn eu tuedd '*to[wards] essentialising political urges in marginalized bodies rather than extensively disrupting the normative regimes that produced them in the first place*'. Chwalwn werthoedd normadol Prydeindod!

Dwi ddim yn awgrymu ein bod yn rhoi hynny ar faner, ond nid arddel gwerthoedd y Brydain neo-ryddfrydol ar raddfa llai ddylem ei wneud, nac arddel parhad fersiwn benodedig o Gymreictod. Ni fyddai fawr neb yn cefnogi annibyniaeth ar y seiliau hynny beth bynnag. Yr hyn sydd yn ddiddorol, ac sydd yn ein hachub rhag y peryglon yma, yw fod y mudiad annibyniaeth yn tyfu ar y cyd â syniadau am groes-doriadaeth, ar y cyd â Black Lives Matter, ar y cyd a #MeToo. Nid dianc i amddiffynfa ffiniau'r genedl draddodiadol yn wyneb yr heriau yma y dylem ei wneud.

Yn fy mhrofiad i, mudiad croes-doriadol yw'r mudiad dros annibyniaeth ar ei orau, fel mudiadau sydd wedi ei seilio ar amrywiol hunaniaethau ar draws y byd. Ffrâm yw annibyniaeth lle galluogir y mudiadau yma i godi eu lleisiau o'i mewn. Ein dyletswydd ar y Chwith yw creu'r gynghrair enfys all ein harwain at Gymru annibynnol flaengar.

Mae Sioned Williams yn Aelod o'r Senedd dros Orllewin De Cymru a hi yw Llefarydd Plaid Cymru ar Gyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb. Ers cael ei hethol i'r Senedd yn 2021 bu'n ymgyrchu ar fesurau i ddileu tlodi yn arbennig. Yn enedigol o gymoedd Gwent, mae hi'n byw yng Nghwm Tawe.



YN Y CREU MAE'R CYFLE

BECA BROWN

'Dan ni gyd yn gynnyrch lobscows o brofiadau ffurfiannol - rhai cadarnhaol a fel arall - sydd yn siapio'r ffordd rydan ni'n gweld y byd ac yn gyrru ein gweledigaeth.

Dwi newydd ddathlu fy mhenblwydd yn hanner cant ac mae carreg filltir felly yn anorfod yn arwain at edrych yn ôl ar yr hyn â fu er mwyn lliwio a llywio yr hyn sydd i ddod. Mi fedrwn i restru peth wmbradd o ddigwyddiadau, profiadau a sylweddoliadau sydd wedi dylanwadu ar yr hyn hoffwn i weld i Gymru a'i phobl, ond o'u cysidro nhw gyd mi fedra'i adnabod un yn arbennig sydd yn dal i weithredu fel crud i fy ngweithgaredd gwleidyddol.

Fel nifer fawr o bobol o fewn y mudiad cenedlaethol mi wnes i dreulio cyfnod byr yn y carchar fel rhan o un o ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith. Mi es i mewn yn ymgyrchydd iaith dosbarth canol, freintiedig ar fy mlwyddyn olaf yn y brifysgol ac yn meddwl 'mod i'n gwbod y cyfan. Mi ddois i allan yn ymgyrchydd iaith ddosbarth canol, freintiedig oedd â'r ffasiwn ddicter gwynias am yr anghyfiawnder cymdeithasol ro'n i wedi ei weld tra yn y carchar, ac yn sylweddoli 'mod i'n gwbod dim byd.

Gweithwyr rhyw yr un oed â fi a 'fengach yn pydru yn y carchar tra bod eu pimps â'u traed yn rhydd. Merched ifanc beichiog a oedd yn cael y nesa' peth i ddim gofal. Mamau ddim yn gwbod be' oedd hanes eu plant a phwy oedd yn gofalu amdanyn nhw. Merched yn

cael eu rhyddhau i ofal aelodau o'u teulu oedd eisoes wedi eu camdrin. Pawb, bron, yn hunan-anafu. Hanesion o dlodi hollol hurt. Hiliaeth. Hagrwch bywyd doeddwn i ddim wir wedi ei weld o'r blaen.

I hogan fel o'n i, mae dweud bod y profiad wedi bod yn agoriad llygad yn druenus o annigonol.

Dim ond am bythefnos roeddwn i yno, ond ar ôl dod allan roedd meddwl am fynd yn ôl i astudio at fy ngradd yn teimlo'n chwerthinllyd. Sut fedrwn i fynd yn ôl i ymhel efo cywyddau ac awdlau pan roedd 'na gymaint o boen yn y byd?

Mynd yn ôl nes i ond nid cyn diflannu am ychydig wythnosau i drio cael trefn ar beth oedd yn teimlo fel stwmp di-symud ar fy stumog.

Dwi'n dal i feddwl am y merched nes i gwrdd yn ystod y cyfnod yna ac am beth, dybed, ydi eu hanes nhw rwan. Ond y wers fawr ac annileadwy oedd y ffaith fod popeth yn amlwg yn eu herbyn nhw - oherwydd eu rhywedd, eu dosbarth ac yn achos nifer fawr ohonyn nhw, eu hil.

Ches i erioed her gan yr un ohonyn nhw am yr hyn a arweiniodd ata'i yn landio'n ddisymwth yn plith nhw, er nad oedd yr un ohonyn nhw yn siarad Cymraeg nac yn gyfarwydd efo ymgyrchoedd iaith. Roeddan nhw'n deall yn reddfol beth ydi gweithredu yn erbyn gormes ac yn derbyn yn llwyr fy rhesymau dros wneud be' wnes i. Roeddwn i wedi gweithredu yn uniongyrchol yn erbyn un o swyddfeydd y Torïaid yng Nghymru ac roedd pawb yn cydymdeimlo'n hawdd efo hynny, wrth gwrs.

Bu'r profiad yn un ffurfiannol o ran y math o ymgyrchydd iaith ydw i hefyd. Trefnwyd rhyw fath o noson 'croeso nol' imi yng Nghlwb Ifor Bach ac yng nghanol llawenydd a rhialtwch y noson daeth dau Gymro Cymraeg ata'i, yn gofyn am sgwrs. Roeddan nhw isho fy hysbysu i nad oedd pythefnos yn jêl dros yr iaith yn mynd i 'ngwneud i'n Gymraes, oherwydd eu bod nhw'n gwbod mai Saeson ydi'n rhieni fi. Roedd hwnna i fod yn rhyw fath o 'gotcha' a oedd yn fy llorio ac yn fy ngorfodi i drio cyfiawnhau fy hun ac amddiffyn fy ngredenshals fel Cymraes Go Iawn, be' bynnag ddiawl ydi hynny.

Mae'r ddau ŵr bonheddig yna wedi mwynhau gyrfaoedd pur ddylanwadol yma yng Nghymru a dwi'n fythol ddiolchgar am eu dylanwad nhw arnaf i. Gyda'r ychydig yna o eiriau ganddyn nhw ro'n i'n gwybod yn iawn sut Gymru do'n i ddim am ei gweld ac fe hogwyd fy anhoffter dwfn o unrhyw agweddau puryddol ac elitaidd sydd yn cau allan yn hytrach na chynnwys.

Dwi bellach yn gynghorydd sir ac yn cael y fraint o rannu fy nyheadau o blatfform etholedig, ac yn sgil hynny daeth 'chwanag o brofiadau i'm ffurfio ymhellach ac i gadarnhau y gwersi cynnar rheiny.

Haf y llynedd roedd y côd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar fin cyrraedd ysgolion Cymru. Er mwyn cywiro cam-wybodaeth helaeth a pheryglus a oedd yn cael ei bedlera gan grwpiau ymgyrch ac unigolion ar yr asgell dde eithafol mi wnes i amddiffyn yr addysg ac ymhelaethu'n

gyhoeddus ar ei gynnwys. Oherwydd hynny daeth bygythiadau a sylw hynod annymunol ddaru fy ngyrru i edrych yn agosach ar darddiad yr ymgyrch wrth-ACaRh ac ar y feddylfryd trawsffobig afiach oddi mewn iddi sydd yn debyg iawn i homoffobia yr 80au.

Unwaith eto roeddwn i'n cael cipolwg erchyll ar gasineb nad ydw i am weld yng Nghymru'r dyfodol.

Yn ystod rali Yes Cymru yng Nghaernarfon mi welais i faner gan rywun a oedd yn cyhoeddi "Nid Oes Lle i Ffasgwyr yn y Gymru Rydd" a dyna dwi'n meddwl sydd yn crisialu fy nyheadau am Gymru annibynnol.

Nid yn y cyrchfan mae'i dal hi, ond ar y daith. Nid wedyn rydan ni'n penderfynu sut Gymru rydan ni am ei gweld ond rwan, yng nghrud y creu. Os drown ni lygad ddall rwan i'r hyn sy'n reddfol wrthun inni yna mae'r wobr yr ydan ni i gyd yn ei cheisio wedi ei tholcio cyn cychwyn.

Nid oes lle i ffasgwyr yn y Gymru rydd.

"Mae Beca Brown yn fam i ddau, yn gynghorydd sir ac yn golofnydd i gylchgrawn Barn. Cafodd ei magu yn Nyffryn Ardudwy ac mae hi rwan yn byw yn Llanrug ger Caernarfon. Mae hi wedi gweithio fel newyddiadurwr, cynhyrchydd teledu ac ym maes Cymraeg i oedolion ac mae hi bellach yn dal portffolio Addysg ar Gyngor Gwynedd."



WORKERS RIGHTS

CERITH GRIFFITHS

There has always been, and I guess there always will be attempts by the ruling class to curb the rights of workers, but there was no bigger attack on a trade union's ability to organise than in the 1980's. The Westminster government of the day led by Prime Minister Margaret Thatcher was absolutely determined to crush the National Union of Mineworkers (NUM). This was an act of revenge that had been some years in the planning culminating in the bitter dispute that lasted for the best part of 1984 into the early months of 1985.

The acts introduced by the Conservative government in power between 1979 and 1997 severely reduced the powers of trade unions by, amongst other things restricting the right to picket and preventing members taking strike action in support of other unions. They also introduced ballots which were required to take strike action and these were further strengthened in favour of government and the employers by the Trade Union Act 2016. We are now seeing further anti-trade union legislation being introduced in the form of the Strikes (Minimum Service Levels) Bill. As this bill moves through the various stages required by the UK Parliament, the Welsh Government have already indicated that they would not wish to see such restrictive legislation introduced here.

Whilst the Trade Union Act was introduced as a Westminster Government piece of legislation

which applied across the UK under the devolution settlement afforded to Wales the Welsh government was able to dis-apply aspects of the act in the form of the Trade Union (Wales) Act 2017. As a result of this, in Wales public sector employers were restricted in their use of agency workers during periods of strike action, were unable to insist on a 40% threshold for strike ballots, there were no restrictions affecting time off for union activities and unions were able to continue taking subscriptions directly from workers' salaries. Of course the Westminster government has taken exception to the Welsh Senedd making use of its own powers and is attempting to claw back these aspects of devolution and attempting to overrule a democratic decision taken in Wales by taking back these powers. This is an affront to democracy like no other.

Looking at the political make-up of Wales as it stands it's highly unlikely that any Welsh government would have introduced such draconian legislation that has placed such a restriction on workers and their trade unions and this has been demonstrated time and again by the various responses to these pieces of legislation let alone attack an industry in the way that Thatcher attacked the miners. Had these attacks not been ideological then we would have seen a far bigger effort by successive Westminster governments to restore the communities that were decimated by the decline of the coal industry in Wales. Those former communities have yet to recover and expecting the UK government to do something that they have consistently ignored for decades is nothing short of a fantasy.

A true example of what an independent Welsh government could achieve was demonstrated in late May 2023 by the publishing of the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act. This received Royal Assent after previously being passed by the Senedd on the 14 March. It puts a new duty on public bodies to engage with trade unions and it also set up a Social Partnership Council for Wales. The Act also places a duty on Welsh contracting authorities in relation to public procurement ensuring rigorous contract management.

The aim of the Act is to improve the economic, environmental, social, and cultural well-being of Wales by embedding the principle of social partnership in the operation of public bodies in Wales. Social Partnership is a way of working with shared values and a common purpose. Social Partnership works on the basic principle that more can be achieved by Government, employers and workers (predominantly through their trade unions) working together in a spirit of cooperation and collaboration. This has been a landmark piece of legislation that aimed to strengthen the role of workers' voice in government.

As the coal industry becomes confined to the history books, society is looking at adopting a much greener future in terms of energy production. Solar, wind and tidal power are very much where the future of our energy sources lie and these will be critical if we are to guard against the environmental crises that we face as a society. Climate change and the destruction of biodiversity is all too real unless we take drastic action now. Only an independent Wales can truly take action against the dangers we face as the temperature of our planet increases. The UK government will say the right thing but when it comes to investment or taking action then the silence is deafening. You only have to look at their promises on rail electrification in Wales or the promise of a Swansea Bay barrage.

The Westminster government is dominated by capitalism and fossil fuel extraction across the mining communities of Wales (and other parts of the UK) concentrated that wealth in the hands of the few. That wealth was taken from those communities and was never reinvested. Instead we have to take action to secure a green future for ourselves. If we don't it is clear that Westminster will continue to exploit the resources of Wales and we face the same threat to the wealth of communities as we've seen over the years with the coal industry.

A green future is about taking the small steps initially and ensuring that those steps become bigger with the passage of time. Only an independent Wales can take those steps and expecting the government of another country to do that on our behalf is folly, particularly when it is so rooted in capitalism.

A green future is the only way of protecting the planet as we know it today. It is about protecting our futures, it is about protecting our children's future, it is about protecting the future of our grandchildren and all those who come thereafter. Only Wales can and will look after Wales and the people of Wales.

Let Wales be the heart of the next revolution.

Cerith was born and raised in Brynaman, a mining village in the Amman Valley. From a family predominantly employed in the mining industry his politics were shaped by the de-industrialisation of the area in the 80's. He is a firefighter and joined the Fire & Rescue Service in 1994 at the age of 24. He is currently the National Executive Council member for the Fire Brigades Union.



FY NGHYMRU I **NAOMI HUGHES**

Pan ofynnwyd i mi ysgrifennu'r erthygl hon, meddyliais mai jobyn bach 10 munud fyddai hi!

Wrth gwrs mae gennyf syniadau am y Gymru annibynnol yr hoffwn fyw ynddi, ond wrth ystyried y testun, wnes i ffeindio fy hun yn ystyried ystyr Cymru annibynnol llawer dyfnach na dw i wedi ei wneud cyn hyn. Daeth y cwestiwn fel cyfres o goridorau, gyda rhagor o ddewisiadau a chyfleoedd wrth agor pob drws. Erbyn hyn, fel hynny dw i'n dechrau gweld potensial Cymru.

Ar ben fy rhestr dymuniadau, fel petai, yw byw mewn cenedl oddefgar, teg lle mae ecwiti cyfleoedd yn arwain cymdeithas. Gwlad lle nad yw lliw, rhyw, hunaniaeth, crefydd neu dim arall yn eich rhwystro nac yn cyfyngu yr hyn y gallwch ei gyflawni neu ddylanwadu'r ffordd yr ydych yn cael eich trin. Dylai Cymru fod yn gartref i bawb sy'n dewis ei wneud yn gartref iddynt a hwythau yn perthyn i'r genedl a'r genedl yn perthyn iddyn nhw.

Hefyd, credaf yn gryf bod dyletswydd ar Gymru annibynnol i fynd i'r afael ag anghyfiawnder economaidd yn ein gwlad. Nid am fyw mewn gwlad ag ardaloedd lle mae dros 40% o'n bobl ifanc yn byw mewn tlodi ydw i, a dyma ble dw i'n gweld uchelgais yn graidd i'n dyfodol. Mae angen creu gwlad gyda chyfleoedd i'n pobol ifainc ar draws ystod o feysydd gwahanol. Dylem werthfawrogi'r gallu a chyfraniadau ein pobol ifainc, boed yn y byd cerddorol, ym myd y celfyddydau, gwyddoniaeth, chwaraeon neu'r byd

economaidd. Mae gan wlad aeddfed a hyderus weledigaethau llydan o'r hyn sy'n cynrychioli llwyddiant ac mae'n rhaid i Gymru beidio â dilyn llwybrau meddwl cul sy'n cyfyngu potensial y wlad.

Ymhellach, hoffwn weld ynni Cymru yn nwylo cymunedau a phobol Cymru gan sicrhau na fydd pobol yn ein cymunedau wynebu'r math ddewisiadau yr ydym wedi'u hwynebu'n ddiweddar gyda chostau byw a chostau twymo'n tai yn bennaf. Dylai'r elw a ddaw o gynhyrchu ynni glân weithio i ni fel cymunedau ar draws y wlad gan y dylem greu cronfa arian i wella bywydau a chyfleoedd yn enwedig yn ein hardaloedd mwyaf di-freintiedig. Fy ngobaith fan hyn yw, gyda rhagor o fuddsoddiad, y gallwn greu sefyllfa economaidd lle mae'r cyflogau is yn codi gan leihau y nifer cywilyddus o bobol sy'n gweithio ar hyn o bryd ond yn parhau i fyw mewn tlodi.

Yr elfen nesaf ar fy rhestr yw bod pawb yng Nghymru yn cael y cyfle i ddysgu am hanes Cymru a'i phobol yn ogystal â deall ein hanes mewn cyd-destun ehangach. A chofiwch, dw i'n siarad am hanes Cymru a'i phobol, hynny yw gan ddeall bod teithiau gwahanol wedi'n tywys i fod yn Gymry. Fel person o dras gymysg gwelaf y pwysigrwydd o gydnabod hanes teuluoedd sy wedi dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt. Hefyd fel rhywun a anwyd yng Nghaerdydd sy wedi dysgu Cymraeg, faswn i ddim yn fodlon gyda Chymru annibynnol lle nad oedd pawb yng Nghymru yn cael cyfle teg i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Fel merch i dad o Gymru a mam o Tseina teimlaf i mi gael colled o'm magwraeth uniaith Saesneg, colled, er gwaethaf dysgu Cymraeg, sy'n gosod cysgod ar fy mlynyddoedd cynnar gan adael bwlch sylweddol yn fy hunaniaeth fy hun dwi'n dal i'w deimlo hyd heddiw.

Mae gan lawer ohonom ddyhead i fyw mewn gwlad lân, werdd ac rwyf innau yn ffyddlon i'r dyhead hwnnw. Mae newid yn yr hinsawdd yn broblem i ni i gyd ond yn broblem fwy i'r cenedlaethau i ddod. Yn ddyddiol rwy'n edrych a manteisio ar gyfleodd i fyw bywyd llawer mwy cynaliadwy er nad ydw i wedi perffeithio hyn o bell ffordd. Mae addysg yn bwysig iawn yn y maes hwn ond yn fy marn i bydd rhaid i ni fel cenedl dderbyn cyngor ac arweiniad gan ein llywodraeth i droi'r wlad yn un sy'n hybu a hyrwyddo cynaliadwyedd yn flaengar ac yn radicalaidd.

Ac yn olaf ar fy rhestr am nawr, a fydde'n bosibl i ni fel gwlad annibynnol gael system cludiant cyhoeddus sy'n gweithio i ni yn hytrach na'r bobol drws nesaf? Byddwch chi wedi clywed am y fath beth, rhwydwaith lle mae trên yn cwrdd â'r bws a bod bysiau a threnau yn actiwli bodoli. Byddaf yn hiraethu'n aml wrth wylio'r trên yn diflannu lawr Cwm Taf Bargôd yn cario'r glo o'r safle brig glo yn Ffos-Y-Frân (sy'n cael ei gloddio yn anghyfreithiol erbyn hyn) i lygru'n gwlad wrth gael ei losgi gan feddwl 'Pam fod trên i gario tanwydd i ladd ein byd ond nid i gario ein pobol?'

Wir i chi mae'r daith i'n Ysgol Gyfun Gymraeg leol ar gludiant cyhoeddus oddeutu dwy awr gan gynnwys bron â hanner awr o gerdded.

M'ond dechrau yw hyn i gyd dwi'n teimlo, ond fel dywedais gynt m'ond dechrau agor y drysau i botensial Cymru ydw i. Ond fel ni'n gweud fan hyn 'y cam gore yw'r cam cyntaf' a'r cam cyntaf i fi yw annibyniaeth.

Yn wreiddiol un o Gaerdydd, mae Naomi yn 44 oed ac yn fam a llysfam i bedwar o blant. Yn ogystal â gweithio fel athrawes ddylunio, mae ganddi gwmni dylunio ac yn dwli ar ganu cerddoriaeth. Cyfarwyddwr Yes Cymru ydy hi oherwydd ei bod yn credu bod dyfodol gwell a thecach i bobl Cymru na'r hyn a gynigir gan y bleidiau yn San Steffan.



CYRRAEDD YN DDIOGEL

EMYR LEWIS

Gofynnwyd i mi rannu fy ngweledigaeth ar gyfer Cymru annibynnol, hynny ydy, y math o wlad yr hoffwn weld Cymru'n datblygu i fod.

Nid yw hynny'n anodd. Dyma hi:

Gwladwriaeth sofran sy'n ddemocratiaeth ryddfrydol, werdd, gynhwysol, ffyniannus; lle perchir a sicrheir, drwy gyfansoddiad ysgrifenedig a chyfundrefn gyfiawnder annibynnol, hawliau dynol, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol; lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, ac sy'n croesawu pobl o bob cefndir a hil.

Mae cwestiwn fel hyn o'i hanfod yn ein cyfeirio'n syth at y pen draw, at y cyrchfan. Sut le yw dy Gymru rydd di? Nid yw'r daith yno yn ein trafferthu wrth synio am hynny. Ond onid yw'r daith yno, serch hynny, yn rhan hanfodol o sut siâp fydd ar bethau ar ôl cyrraedd?

Ystyriwch er enghraifft nofel ddiweddaraf Wiliam Owen Roberts 'Cymru Fydd'. Ynddi, mae Cymru wedi dod yn wlad annibynnol lewyrchus drwy ymgyrch filwrol yn dilyn trychineb amgylcheddol. Cymraeg yw'r unig iaith swyddogol. Ei byddin orthrymus a'i gwasanaeth cudd creulon sy'n ei gwarchod hi a'i hadnodd gwerthfawr, sef dŵr. Diogelir Cymru gan rymoedd mawr y byd, yn arbennig Tsieina. Mae Cymru'n 'chwaraewr' rhyngwladol ym maes technoleg diogelwch a rhyfela. Dyma gyrchfan dystopaidd, a'r daith dreisgar yno wedi ei siapio.

O'm rhan innau, hoffwn weld Cymru sydd wedi cyrraedd pen ei

thaith yn ddiogel.

Er mwyn i Gymru gyrraedd pen ei thaith yn ddiogel, byddai angen arni gael sêl bendith y gymuned ryngwladol ar ei bodolaeth fel gwladwriaeth sofran. Heb hynny, fyddai hi ddim yn ddiogel. Felly sut mae cael y sêl bendith hwnnw?

Wel, y man cychwyn efallai yw ystyried cyfraith ryngwladol. Dan hon, mae gan 'bobloedd' ('*peoples*') yr hawl i 'hunan-benderfyniad' ('*self-determination*'). Datgenir yr hawl hon ym mhrif ddogfennau cyfreithiol y Cenhedloedd Unedig.

Mae'n demtasiwn meddwl fod hyn yn rhoi hawl dan gyfraith ryngwladol i bobl Cymru gael annibyniaeth os dymunant. Ond nid felly mae pethau.

Mae cyfraith ryngwladol yn gwahaniaethu rhwng dau fath o hunan-benderfyniad, mewnol ac allanol.

Mae hunan-benderfyniad mewnol yn hawl oddi mewn i ffiniau'r wladwriaeth y mae'r 'bobl' dan sylw yn rhan ohoni. Mae hunan-benderfyniad allanol yn hawl ar y gwastad rhyngwladol – dyma hawl gwladwriaethau sofran i wrthsefyll unrhyw ymyrraeth estron ar eu tiriogaeth.

Fel arfer, dim ond yr hawl fewnol sydd yn gymwys ar gyfer sefyllfa cenedl ddi-wladwriaeth fel Cymru neu Gatalunia. Mae llywodraeth leol neu ddatganoli yn ddigonol. Dim ond o dan rai amgylchiadau y bydd yr hawl allanol yn berthnasol yn y cyd-destun hwn, sef (1) lle bo dadgoloneiddio yn digwydd, neu (2) lle bo gormes wedi bod neu (3) lle gwadwyd i grŵp penodol fynediad at lywodraeth. Mewn amgylchiadau felly gellir (mewn egwyddor o leiaf) hawlio annibyniaeth dan gyfraith ryngwladol.

Ond arhoswch funud, meddech chi, oni chafodd Cymru ei choloneiddio? Oni ddioddefodd ormes? Ateb y gyfraith i hynny yw: efallai wir, ond nid yw cyflwr *cyfoes* Cymru gyfryw fel bo'r hawl i hunan-benderfyniad allanol yn codi yn ei hachos hi. Pan geisiodd Llywodraeth yr Alban a'r SNP ddyfarniad fyddai'n caniatáu cynnal refferendwm ymgynghorol am annibyniaeth, fe welsom Oruchaf Lys y Deyrnas Gyfunol yn arddel yr union ddadl honno, gan ddyfynnu Goruchaf Lys Canada mewn achos yn ymwneud â Quebec:

the people in question are entitled to a right to external self-determination because they have been denied the ability to exert internally their right to self-determination…Neither the population of the province of Quebec, even if characterized in terms of "people" or "peoples", nor its representative institutions, the National Assembly, the legislature or government of Quebec, possess a right, under international law, to secede unilaterally from Canada.

Nid oes llawer o amheuaeth mai dyma fyddai sefyllfa gyfreithiol Cymru hefyd pe bai hi'n dewis ymadael â'r Deyrnas Gyfunol o'i phen a'i phastwn ei hun. Heb sail gadarn ar gyfer annibyniaeth dan gyfraith ryngwladol, ni fyddai taith Cymru yn un ddiogel. Prin fyddai'r gwledydd fyddai eisiau bod yn ffrindiau iddi,

ac mae peth amheuaeth a fyddai rhai o'r rheiny yn ffrindiau gwerth eu cael.

Ond hyd yn oed pe bai er enghraifft dystiolaeth gadarn o ormes gyfoes, fyddai hynny ddim yn warant o daith ddiogel. Does ond angen ystyried sefyllfa Cosofo lle mae anghytuno ymysg gwledydd sofran (a'u cyfreithwyr) a yw hi'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer bod yn wladwriaeth annibynnol. Yn y pen draw buddiannau'r gwledydd hynny sy'n lliwio eu hagwedd at bethau. Gwledydd sofran ydyn nhw, wedi'r cyfan. Fel erioed, bydd ystyriaethau gwleidyddol yn drech na rhai cyfreithiol. Nid yn y gyfraith mae'r ateb. Nid wrth ddrws y ddeddf mae cael rhyddhad.

Felly a oes taith ddiogel bosibl gan Gymru at annibyniaeth? Wel oes. Mae un gair allweddol yn y dyfyniad uchod o achos Quebec, sef 'unilaterally'. Yr her i gefnogwyr Cymru rydd yw nid yn unig perswadio pobl Cymru mai dyma ben y daith, ond yn sgil hynny hefyd lywodraeth y Deyrnas Gyfunol fod honno'n daith y dylai hi fod yn gydymaith arni yn hytrach nag yn rhwystr iddi. Byddai hynny'n hwyluso, yn wir yn sicrhau, cydnabyddiaeth i Gymru annibynnol gan drwch gwladwriaethau sofran y byd.

Ai breuddwyd gwrach yw hyn? Wedi'r cyfan, mae'r sefydliad Prydeinig wedi gwrthwynebu annibyniaeth i'r Alban gan osod rhwystrau cyson yn ei ffordd. At hynny, gwelsom agwedd drahaus a digyfaddawd Llywodraeth y DG wrth drafod telerau ymadael â'r Gymuned Ewropeaidd, nad yw'n argoeli'n dda ar gyfer trafodaethau tebyg yn sgil pleidlais o blaid annibyniaeth.

Serch hynny, mae peth tystiolaeth fod elfennau oddi mewn i'r sefydliad hwnnw yn dechrau dod i ddeall nad yw cyfansoddiad y Deyrnas Gyfunol sy'n seiliedig ar oruchafiaeth grym absoliwt Senedd Llundain uwchlaw pob dim yn ddigonol er mwyn cynnal perthynas iach a chadarnhaol rhwng gwledydd Ynys y Cedyrn. Os ydym o ddifri am gyrraedd Cymru rydd, yna mae angen manteisio ar y duedd hon, a chynghreirio er mwyn dylanwadu arni.

Disgrifiais uchod fy ngweledigaeth ar gyfer Cymru annibynnol. Oni fyddai'n wych o beth pe bai Lloegr hithau hefyd yn datblygu i fod y fath yna o wlad ac yn teithio gyda ni yno? Mae fy ngweledigaeth o Gymru annibynnol yn cynnwys y ddelfryd honno.

Cyfreithiwr a bardd yw Emyr Lewis



CUBA, COSTA RICA AND CYMRU

JULIE BROMINICKS

For a thriving ecology, society and culture, we already have the knowledge at home – and some precedents overseas. Julie Brominicks shares her vision for a sustainable, equitable and happy future – and thoughts on how to achieve it.

Birdsong. Swelling, increasing with the light that becomes briefly more luminous, held by a matrix of leaves like so many green lanterns. This is a Cymru I would like to have in the future. Trees would be good. Birds - yes to birds. People? Yes, let's keep people too.

But what will it take given that our current behaviour is committing us to a hothouse climate of drowned coastal settlements, global famine and conflict, and mass species extinction?

Cymru's environmental performance is poor. Like the rest of the UK (to which our data is enmeshed – I'd change that too) our ecological footprint (which shows the amount of land used to produce our resources, deal with waste and absorb CO_2 emissions) is about 4.18 global hectares per person (ghpp). A sustainable one-planet footprint is 1.8 ghpp. We use three planets' worth of resources – only possible because poorer nations are using less than one, and because as a global whole

we have overstepped the point at which Earth can regenerate.

Luckily we know what to do. And we have some precedents.

Cuba

Back in 2006, before being accused of promoting communism, WWF published a chart which correlated the Ecological Footprint of Nations with the Human Development Index (a measure of life expectancy, education and healthcare). The only country to match good living standards whilst not exceeding one planet's worth of resources was Cuba. (Other Latin American countries were close.) Scrutiny of the most recent (now separately presented) data shows Cuba is still in that sweet spot.

How did this happen? Well, Cuba responded to the US trade embargo by investing in healthcare and education. And Cuba's lack of access to oil gave rise to a burgeoning local, organic self-sufficient agriculture with even traffic islands being torn up to grow veg.

Costa Rica

Meanwhile, the more politically palatable Happy Planet Index measures the ecological footprint of nations against their life expectancy and wellbeing (how satisfied residents say they are with life). Costa Rica has topped the last four Happy Planet Index polls from 2016-2020.

How? Following a civil war in the 1940s, arms were abolished and finances channelled instead into education and culture. Nevertheless, by the 1980s Costa Rica was terribly deforested. Again the government responded boldly by granting land to poor people and paying them to restore water systems and biodiversity. Wonderful – though ironically the now flourishing ecology has led to aviation-intensive eco-tourism. Despite high levels of life expectancy and wellbeing Costa Rica's ecological footprint is too high at 2.65 ghpp.

Nevertheless. Cuba may be a one-party state and Costa Rica may have an aviation addiction, but they have achieved high levels of both human and environmental sustainability. Imagine that here! A Cymru where wildlife and people thrive!

Community

Beginning with people, my mind turns to Welsh football legend and socialist Neville Southall. Big Nev says that government needs to look after its most vulnerable people and treat them with 'the greatest respect and dignity.' I'd like a Cymru like that too. Where Cymraeg and cymreictod thrives among a multi-lingual society enriched by immigration and refugees, where everyone not only enjoys equal opportunities and fair access to employment, healthcare and education, but culture too.

But there can be no society,

no humanity at all, without the ecological systems that support it.

We also need to fix them.

We know what to do. We just haven't got round to it yet.

People remain muddled about where to start. The Rishi Sunak effect doesn't help. In 2022, when asked how homeowners could best tackle climate change, Rishi Sunak answered 'recycling.'

What should he have said? We need to know where our greatest negative impacts are in order to know how to reduce them. Domestically – and this applies to us in Cymru too, we're mostly talking about heating and energy use - which can be tackled with insulation and a green tariff. Transport is also big. Simply switching petrol cars to electric isn't the answer due to problems with batteries and infrastructure – investing in public transport, cycling and ditching aviation, is still the way to go. Food has a big impact. Meat and dairy use abundant land and water resources and generate copious emissions, but nutritionists have long promoted a diet rich in fresh veg and grains, and low in proteins and processed food - a healthy diet is a climate-healthy one. Our final big impact is the 'stuff' we buy. Buying stuff keeps the capitalist wheels turning and Rishi happy. But producing it requires extravagant energy and resources. Buying second-hand or good quality goods that last, helps. Just recycling it doesn't make enough difference because recycling is also energy-intensive. (Do the maths Rishi)

Which brings me to another thing we can do.

Tell politicians what we want.

This is what I want. For us all to love agriculture and support farmers by buying their produce (and upholding their language and traditions.) We need Welsh Government to help by untangling the subsidy mess.

By reducing numbers of livestock we create space for vegetables, grains, fodder, and bio-fuels to power farm machinery. I would like to see farms bursting with people and produce, livestock browsing flower-rich pastures connected by thriving hedgerows. Wildlife benefiting from a habitat mosaic.

Less livestock also allows for more woodland. Trees! Some for carbon sequestration and biodiversity. Some for recreation. Some as a timber crop for new or renovated buildings - super-insulated homes requiring minimal heat energy. Energy generated from Welsh resources - offshore and onshore wind supplemented by solar, hydro, tidal and biomass.

(We'll need independence for that.)

Yes please to seaweed and shellfish industries. Yes to wildlife-rich food-producing urban spaces, blurred boundaries between towns and rural settlements, connected by a public transport system so cheap and efficient we ditch our cars.

Cuba and Costa Rica have demonstrated that environmental sustainability doesn't have to be about what we lose but what we gain. Art, culture, education, healthcare, wellbeing, wildlife. In Cymru, we can choose our own sustainable future. Warm efficient homes, reliable public transport, healthy diets, rural employment, diversity, Cymreictod, culture, community, equity and a wildlife-rich nation. Yes to all that.

Environmental and social sustainability is a central theme to both Julie's writing and personal life. Before becoming a writer in 2012, she communicated sustainability to a range of audiences at the Centre for Alternative Technology. She now writes articles for BBC Countryfile Magazine usually (but not exclusively) about the Welsh landscape, and is the author of 'The Edge of Cymru' published by Seren Books. She lives with her husband in Eryri.



Photo courtesy of Billie Charity. Official Hay Festival photographer.

HOLES IN MY MOTHER'S HOUSE.

ERIC NGALLE CHARLES

"We give thanks there are no bullet holes in the pillars of this house. Just a cloud of witnesses who'll maintain us in all manner of beliefs." Ifor ap Glyn

There was a separation, a complete disconnect between my physical and my spiritual body. So far as I could gather, I was in my mother's parlour in the village of Small Soppo in Buea, the one-time capital of German Kamerun. Yet, I saw myself lingering over the East Side of Cardiff City Stadium: flying past stores, coffee shops, and gyms. The air was pungent with the scent of spring. Greenery as eyes could see, and two women with Maclaren prams picked daffodils. Babies cried, chucking dummies out of prams, distracted by the sounds coming from the ice cream van.

Mr. Ali is a rugged-looking gentleman from Bute Town. Wrinkles on his face hide the distant memories of his broken landscape, Somalia. Now drives an ice cream van and signals his arrival into Clos Parc with a nursery rhyme. "The wheels on the bus go round and round, round and round, round and round." Despite this happening simultaneously every Saturday, it always caught the parents off-guard. Children of walking age abandoned their parent's grip and sped down the road.

To the West of the stadium, as one passes Costco, I saw the imposing building with large prints on the side, Glamorgan Archives. It houses the History of Wales, from her Celtic

roots to the union with the English. I wondered about the 'YES' Cymru movement and their aspiration for Welsh independence. And Southwest of Cameroon and their desire for a federal state. Two countries I have come to love for distinct reasons.

Am I in Leckwith or my mother's house?

In the confused state, I felt a cold movement on the back of my head, slithering towards my neck. I shivered.

Many people have died in my village like this. Mrs. Valery, who lived at the back of my mother's house, woke up one morning only to find a large viper wrapped around her neck. Was I dreaming or having a nightmare? Was independence, or the contemplation of it, a snare?

I opened my eyes. I was not greeted by the kind of dawn that welcomes you as one waked up in Cardiff. The sun rays and morning lights enter the house through the brown mesh curtains. The sights of the giant pillars holding Cardiff city stadium or my neighbours' hungry dog barking. I wiped the mucous that glued my eyes and noticed the sunrays coming into the parlour through many tiny holes in my mother's wooden house.

Any sudden movement would frighten whatever was on my back. Venom at the top of my spine, and I would be six feet under. How would S4C report my death in some corner of Africa?

Jon Gower encountered a deadly snake in Tanzania. It cost him a three-thousand-pound camera. As funny as the story was then, I could not bring myself to laugh this morning.

Here I was, floating between two homes, Cardiff and Buea. Facing death in one and wishing I were in the other.

Ah, Cardiff.

A city between hills, seas, and its morning dew, crowned by waves from the Bay, early morning seagulls, and lovers whispering and holding hands in Sophia Gardens. The long walks through Pontcanna fields and the river Taff and her embankment. A young city that speaks in many colours. A town I have carried on my chest as a tattoo for many years. Its moon, its many spots of rain, its singers with voices as far as the Bannau Brycheiniog. I regretted not taking my daughter to fish along Brains Brewery, where the Taff River flowed. How would my daughter react to the news that her father died mysteriously in a small country in West Africa where he had been visiting his mother, her grandmother?

I started regretting the decision to sleep in my mother's house.

I curled, grabbed what was on my neck, squeezed, and dropped onto the floor.

"Ngah, is that you?" My mother asked.

She calls me Ngah instead of Ngalle - terms of endearment.

"Yes, it is me, mum."

"Be quiet. People are still sleeping."

Though demolished, I still see the wooden house by the roadside with all its holes. During elections, government officials run around preaching slogans instead of programs.

"Independence for everybody. One society, we can all be contributors."

What does independence mean? A community of equals, no racism, dismantling and rewriting history? Or would it be a case of making and distributing leaflets and fliers to farmers who need to comprehend the small prints? Bring tractors to dig up the roads, seal potholes, and paper over cracks. They would throw some gravel and abandon them once the election results are known. Independence should benefit all, including us, Isru, Swallows, and Kites fluctuating between homelands.

"Eric is a Cameroon-born Wales-based writer, poet, and playwright—a PhD researcher at King's College London. Following his autobiography, I, Eric Ngalle, Eric was selected by Jackie Kay as one of the UK's top ten BAME writers: his most recent work, Homelands, was published by Seren Books in April 2022. He was awarded the Creative Wales Award for his work on Migration Memory and Trauma 2018 by the Arts Council of Wales."



DATBLYGU A GWEITHREDU CYMUNEDOL

LISBETH MCLEAN

Mae datblygu cymunedol a gweithredu cymunedol yn agos i'm calon. Y peth pwysicaf i mi wrth feddwl am Gymru annibynnol yw ein gallu i wneud penderfyniadau ein hunain dros ein Cymru ni.

Er mwyn creu newid i'r Gymru sydd gennym mae angen i bobl deimlo bod gwerth i'w pleidlais. Yr unig ffordd gall hyn ddigwydd yw sicrhau Cymru sy'n rhydd o reolaeth San Steffan sy'n gwneud penderfyniadau ar sail anghenion, gobeithion ac uchelgais ein cymunedau.

Gyda phrofiad o dros ugain mlynedd yn gweithio mewn cymuned dwi'n argyhoeddedig taw'r ffordd ymlaen yw cefnogi gweithredu cymunedol trwy sicrhau grymuso ein cymunedau.

Mae geiriau Martyn Joseph yn ei gân Nye (Song for the NHS) yn datgan mai "The purpose of Power is to give it away, this is my truth tell me yours, freedom won't be freedom until poverty is gone ..."

Bu i gyfnod Covid ein deffro i sylweddoli a gwerthfawrogi pwysigrwydd rhwydweithiau gwasanaethau iechyd, lles a gofal lleol ein cymunedau. Cafodd Merthyr, fy nghymuned i, ei bwrw'n wael gan y pandemig, gyda chanolfannau profi ar draws y sir a chanrannau heintus uchaf Cymru ar adegau.

Nid diffyg gallu pobl Merthyr i gadw at ganllawiau rheoli risg Llywodraeth Cymru oedd hyn, fel

yr oedd rhai o'r cyfryngau yn ei ddatgan, ond tlodi a'r ffaith bod cymaint o deuluoedd estynedig yn rhannu tai.

Roedd sefydliadau cymunedol Merthyr, fel llawer o ardaloedd ar draws Cymru, wedi ymateb i argyfwng y pandemig trwy gwrdd i drafod sut y gallwn gydweithredu i gyrraedd ein cymunedau. Roedd angen bwyd, gofal, cefnogaeth foesol a llawer mwy ar ein cymuned.

Daeth sefydliadau, busnesau a gwirfoddolwyr ynghyd mewn ymateb i argyfwng oedd yn effeithio arnom ni gyd. Doedd dim gwahaniaeth rhwng unrhyw sefydliad neu unigolyn, tlawd neu gyfoethog, hen neu ifanc, sâl neu iach.

Er mwyn ysgogi ac ysbrydoli gweithrediad cymunedol mae angen i'n trigolion sylweddoli a deall ein bod ni mewn argyfwng parhaol yng Nghymru erbyn hyn. Byddwn yn aros mewn sefyllfa o argyfwng hyd nes bod y pŵer gennym i wneud penderfyniadau ein hunain dros ein dyfodol.

Rydym yn byw mewn Cymru sy'n dioddef o dlodi trychinebus, heb wasanaethau gofal ac iechyd digonol. Mae mwy o bobl nag erioed yn dioddef o ganlyniad alcohol a chyffuriau. Erbyn hyn mae ein cymunedau'n colli gobaith, mae iechyd meddwl, dibyniaeth ar alcohol a chyffuriau a hunanladdiad i gyd yn bryderon difrifol sy'n dod yn fwyfwy amlwg.

Mae gennym brofiad byw o'r 'darlun cymdeithasol' yma yng Nghanolfan Soar, ein hwb cymunedol Cymraeg yma ym Merthyr. Gallwn adrodd storiâu diri am yr anghenion a phryderon sydd gan ein hymwelwyr, pobl real Merthyr, fy nghymdogion, fy nghydweithwyr, fy ffrindiau a'm teulu.

Felly beth yw'r Gymru hoffwn i weld i'r dyfodol?

Dwi am weld Cymru Rydd ble mae gan ein cymunedau ysbrydoliaeth, ymrwymiad a grym i weithredu dros ein hunain er mwyn adeiladu Cymru well. Cymru sy'n ymfalchïo yn ei diwylliant, ei hiaith a'i gallu i greu newid ac i gyflawni uchelgais a gobeithion ein cymunedau.

Mae'n hen bryd i ni wrando ar yr hyn sydd gan ein cymunedau i'w ddweud. Gwrando, er mwyn deall yr anghenion a'i rhwystredigaethau. Un peth pwysig y gallaf ei ddweud i mi ei ddysgu, dro ar ôl tro, yw'r ffaith bod cymunedau ond yn weithredol pan maen nhw'n cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygiad a dyfodol eu hunain.

Yr unig ffordd y gall hyn ddigwydd yw trwy sicrhau bod ein cymunedau'n chwarae rhan allweddol mewn cynllunio prosiectau, strategaethau a pholisiau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Rhaid cychwyn ar y gwaith o wireddu ein breuddwyd o Gymru Rydd trwy gefnogi ac ysgogi gweithredu cymunedol.

Trwy gynnydd mewn hyder ac ysbrydoliaeth ein cymunedau byddwn yn gweld datblygiad cymunedol ac economaidd fydd yn ei dro yn dilyn at ac yn atgyfnerthu cynaladwyedd ein gwlad.

Mae Lisbeth McLean yn Brif Swyddog Menter Iaith Merthyr Tudful, sefydliad trydydd sector sy'n gweithio i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gymuned. Arweiniodd Lis prosiect adfywio canol tref ym Merthyr Tudful i ddatblygu Canolfan a Theatr Soar, sef Canolfan Gymraeg yng nghanol ei chymuned. Mae Lis hefyd yn Gadeirydd Yes Cymru Merthyr.



NATION OF EQUALS

ADAM PRICE

Wales, an ancient country with a young democracy, almost a quarter of the way into this twenty-first century faces many of the same problems as neighbouring nations, small and large. The ecological crisis that is threatening the Earth's climate and its biodiversity. The wave of automation that will upend vast swaths of our lives. The epidemic of inequality is sweeping through most of the world, developed and developing world alike.

Two of these global challenges are relatively recent (at least to be recognised as major threats) but the third for us is the latest chapter in a long history. Wales is older, sicker and poorer than any other nation in these islands. We are a country that has been going round in vicious circles for generations.

- We're economically depressed which makes us ill, mentally and physically. Which means we can't work.
- We lack locally owned businesses, which means profit goes elsewhere, weakening the economic base necessary for new business to thrive.
- Our education system underperforms, feeding poverty and lowering attainment.

Our root problem is that we are economic hostages of a brand of capitalism – a hollow, anaemic neoliberalism – stacked in favour of the already rich in an ever more Unequal Kingdom. As the financial crisis laid bare, it's an economic model that allows speculation -

property, stocks or crypto, it matters not which – to predominate over the type of productive investment that actually leads to new decently paid jobs or true wealth creation, whether in the private or public sectors.

We are stuck in the rut of an economic system that is itself fossilised, suffering from what economists describe as 'secular stagnation', producing things we can easily do without - commuting, ubiquitous advertising, bullshit jobs, built-in-obsolescence, waste and pollution – while failing to deliver the basics of life - affordable housing, decent food, accessible childcare, economic security – to more and more people.

Real wages were down 10% on a decade earlier, even before the pandemic came, fuelling the explosion in the use of food banks and giving us that now all too familiar phenomenon of "in-work poverty". "Generation Rent" is now less likely to be able to buy their own home than at any time in the last fifty years – due to a combination of spiralling house prices and stagnant wages.

This economic model has not just brought social mobility for millions to a shuddering stop; it's also failing to solve the literally existential challenges such as climate change and antimicrobial resistance; by under-investing in skills, in infrastructure and innovation the very idea of progress itself is at stake. This is not just "market failure" , it's a failure of politics.

Here at home, for Wales as much as in the wider world, poverty is a political choice. It is not an inevitable outcome of pre-existing conditions, any more than unemployment, racial injustice, gender inequality and stagnant working class income.

So how should we choose differently? For us the answer can be encapsulated simply.

By choosing independence for Wales, we can choose to build a future Wales that breaks both with its own past and with the present status quo.

In that new and independent Wales our goals should be small in number and big in ambition. If we expect independence to provide the answer to everything immediately, it will end up answering nothing. So the first thing the Government of a newly independent Wales must do, compared to the current Welsh Government, is reduce the number and improve the quality of its targets.

I believe that an independent Wales should set itself, above all else, the singular goal of becoming a Nation of Equals.

The idea of equality is written into the very fabric of our history as a nation. It was the Welshman Robert Owen that gave the world the word socialism, And another, the Tenby mathematician, Robert Recorde, that gave the world the equals sign.

Ending up in a debtors' prison, Recorde would surely approve the goal of becoming a Nation of Equals.

But it's something that should unite us all.

Income inequality leads to lower life expectancy, lower literacy and numeracy and lower social mobility. It means higher infant mortality, higher violent crime, higher obesity and mental illness including addiction. It means not just greater misery for some, but more misery for all of us. For Covid taught us in the most tragically direct of fashions, that an injury to one is an injury to all. Wellbeing, on the other hand, is a web of infinite connection. It's in that social glue that lies to the secret to a successful life for each of one of us.

To become this Nation of Equals this small country will need ideas that are big and bold. This really is a time to leap because small steps just won't cut it.

Managing child poverty, homelessness and pollution won't do any more. We have to move to abolition. This isn't just the right thing to do, it's the hard-headed, cold-logic, cost effective one too. Every pound invested in homelessness returns triple. Ending child poverty is the best investment in our collective future that we could ever make. So why manage a problem when we could solve it?

Becoming a Nation of Equals means not just abolishing poverty, but raising average incomes - pensions and wages - to cut the yawning gap between Wales and most other high-income economies – while recognising that wellbeing is not the same as GDP.

Given the social values of this very social nation, I have no doubt that independence has the potential, uniquely, to set Wales on a very different path, economically, socially and environmentally, that is radically transformational and that will become rapidly and irreversible in its cumulative effect. A virtuous circle of genuine growth.

At the heart of that independence journey will be a very different view of the role of the State; that it is Government's responsibility to create the conditions to enable people to flourish and reach their full potential as human beings. That it's Government's job to provide the economic dignity and social infrastructure that give people the opportunity to pursue the intrinsic goals of family, friendship, community and creativity.

This is not the social paternalism of the Welfare State of the last century but the social maternalism of the Wellbeing State that we could be among the first to build.

From left behind we could become the leading edge.

The choice is ours to make.

Adam Price was born in Carmarthen into a miner's family and was educated at Ysgol Dyffryn Aman and then Cardiff University where he graduated with a BSc (Econ). He is the Plaid Cymru Senedd Member for Carmarthen East and Dinefwr who served as the party's leader from 2018 to 2023. He was a Member of Parliament (MP) for the same Westminster constituency from 2001 to 2010.



Ni gyd yn cael ein dylanwadu gan systemau cred ein teuluoedd, pa bynnag ffurf ma hwnna'n ei gymryd - y bobol sy'n ein codi ni sy'n cal y dylanwad mwya ar y bobol fyddwn ni, ac mae'n bwysig herio'r credoau ma weithie, er mwyn ein hunain. Yn bersonol, yn wahanol i'm rhieni - o'n i methu rhesymu bod yna Dduw, ond gyda chymaint o brawf ymarferol ymhobman fod bod yn wlad annibynnol yn bosib ac yn gwneud synnwyr, dwi wedi cario mlaen gyda'r gred hwnnw a gwario mwy a mwy o fy amser ar y ddaear ma yn addysgu yn hun o gylch y pwnc a cheisio darbwyllo pobol na chafodd eu codi i erioed ystyried y peth, neu bobl sy'n ei weld fel rhywbeth negatif – fel Brexit neu genedlaetholdeb eithafol, ei fod yn beth positif ac angenrheidiol, nawr yn fwy nag erioed.

I fi – dyma'r bobol fi'n hoffi sgwrsio â nhw am y pwnc. Mae'n bwnc anodd i lot – mae'n bersonol, felly wy'n ceisio dal eu llaw a gofyn cwestiynau fel pam nad y'n nhw ishe'r fath beth, a beth ma nhw'n poeni neu'n ei ofni yn ei gylch – ma'r atebion bob amser yn deillio o bryderon economaidd a hefyd - pethau emosiynol. Gymaint o

CYMRU. CYFARTALEDD. CAREDIGRWYDD.
CARYS ELERI

straeon o gael eu gwrthod mewn rhyw fodd neu gilydd - pethau bach a mawr - gan rhywun o fewn beth sy'n cael ei weld yn amal fel y diwylliant 'draddodiadol Gymreig.' Ac felly yn ofni'r syniad o fod mewn gwlad annibynnol yn cael ei reoli gan bobol sydd yn eu gwrthod, a ddim yn eu parchu.

Ma'r enghreifftie o wrthodiad weithie yn edrych fel pethau bach – unigolion yn gweud pethe heb feddwl – ac i lawer, ma'r gwrthodion bach yn golygu pethau mawr. E.e nath un ffrind weud yn ddiweddar am flynydde o'dd e yn wrth-annibyniaeth ond bellach mae e yn llwyr '*on board*' yn ddyn busnes yn ein prifddinas sy'n astudio'r gyfraith yn hwyrach mewn bywyd – mae e i gyd yn neud sens iddo fe ar lefel ymarferol nawr. Ofynnes i ddo fe pam o'dd e mor wrthwynebus am flynydde a wedodd e '*I didn't think it was for me. It was for Welsh speakers only, and therefore I didn't want to be involved at all. By now I realise that independence is right for every country and it's for whomever the residents of that country is and how they identify or live their lives.*' Yna ofynnes i iddo fe beth o'dd e am y diwylliant Gymreig odd yn neud e ddylanwadu ei farn ynglyn a mater ymarferol o sut ma gwlad yn cal ei rheoli, ac ar ol sbel o gadw fe mewn ac osgoi ateb y cwestiwn achos o'dd e'n gwbod mod i yn siaradwr Cymraeg a ddim ishe rhoi loes i fi, wedes i '*JUST GO FOR IT.*'

'*Now that I'm saying it, this is gonna sound really petty...*'

'*Whatever it is it's clearly hurt you and affected many aspects of your life,*' wedes i.

'*Ok here goes... I once spent a summer many moons ago going to Clwb Ifor Bach with a friend of mine, a Welsh speaking musician. The summers were quiet then at Clwb when the students were gone, so they welcomed me and our friend with open arms as we used to bring a lot of people with us and kept them in business. I loved the place – I still do! The language rules don't exist anymore. That summer was wonderful. Then September came and the students returned, and we went there one evening but they wouldn't allow me to enter this time as I hadn't learned Welsh.*'

'*How were you meant to learn an entire language system in one summer?! That's nuts,*' meddwn i. '

'*Or in one week if they allowed me in the previous week! This time – they were allowing everyone in but me, it was humiliating. Basically me and my no Welsh speaking money were welcome when it was quiet. When it was busy again – they refused me entry to my favourite place what felt like on a whim – it hurt a lot at the time, which is crazy.*'

'*Did your friend fight your corner?*'

'*Oh absolutely – he was fuming and we all took our business elsewhere... not that they cared!! Now I realise – I had a Welsh speaker sticking up for me, I have loads of Welsh speaking friends that would have but for years as a young man - that humiliation, injustice and rejection shaped my whole view of Welshness and politics! Which is completely tragic!*'

'*Can you imagine how more marginalised people feel when they suffer rejection within our culture?*'

'*Yeah – that's gonna take a lot of work. To convince not just them, but their allies and their families too. It can be done though. Welsh and Welshness is beautiful and the more diversity within it will just strengthen it by nature – it's just some individuals can be tricky about this stuff.*'

Wedi astudio gwrthodiad ar yr ymenydd wrth ymchwilio i fewn i sioe o'n i'n ei chreu a gwario lot o amser gyda niwrowyddonwyr, ddysgais fod gwrthodiad yn effeithio rhan o'r ymenydd sef yr Amygdala. Yr ardal sy'n prosesu ein emosiynau – yn creu rhyw fath o 'post-it-notes' am ein emosiynau. Pan yn diodde pethe negatif fel gwrthodiad neu trauma o unryw fath, ni'n logio pwy a beth nath hwnna ac yna bob tro ni'n y sefyllfa/gyda'r math 'ny o berson eto – ma'r amygdala yn ein atgoffa fod y person/lle/ peth na ddim yn dda i ni, felly i warchod ein hunain, ma rhywun ei osgoi fel y pla.

Ma angen cymryd moment i edrych arnom ni ein hunain – i weld beth allwn ni ei wneud i fod yn fwy croesawgar a chefnogol o bobol o wahanol hil, credoau, rhyweddau a rhywioldebau – a'r holl bobol, teuluoedd a chymunedau sy'n eu cefnogi a'u dathlu nhw. Chware teg, ma gymaint o waith da yn cael ei wneud o fewn y wlad – ond beth am y grwpiau sy'n ymgyrchu dros annibyniaeth? Sy'n trio lledu'r gair holl bwysig?

O'n i a sawl ffrind yn perfformio yn nigwyddiad Pride Cymru ym mis Mehefin – ar gyfartaledd, ma' Pride Cymru yn denu 50,000 o bobol dros Gymru i ddathlu bywydau pobol LGBTQ+ Cymru i'n dinas, ac mae'r ffigyrau yn cynyddu bob blwyddyn. Ma gan Cymru gymuned anferth o bobl LGBTQ+ heb sôn am eu teulouedd a'u lluoedd o ffrindie sy'n *allies* iddyn nhw. Ma gorymdeithiau Pride Cymru i'w rhyfeddu ato – yn cynnwys niferoedd o bobol all gorymdeithiau annibynniaeth i Gymru ond freuddwydio amdano fe (ar hyn o bryd!) - rhwbeth a all newid tase mwy o gydweithio yn digwydd â'r gymuned hwnnw, wedi'r cyfan – mewn undod y mae nerth. Dwi ddim yn credu i mi weld presenoldeb mudiade annybynniaeth yno o gwbwl eleni – digwyddiad Gymreig mor anferth - rhywbeth fi wir ddim yn ei ddeall (os oedd na, maddeuwch ifi – ond weles i ddim byd!).

Ma' miloedd ar filoedd o Gymry hoyw, cwîar, deurhywiol, anneuaidd a thrawsrhyweddol yn gweld yr achos ymarferol dros annibyniaeth ond yn ofni beth ma' hwnna yn feddwl iddyn nhw ac i'w teuluoedd. Iddyn nhw ma angen prawf y bydd Cymru rydd yn eu croesawu, y bydd Cymru rydd yn rhoi rhyddid iddyn nhw fyw fel ma nhw eisiau byw heb gasineb. Falle bo chi'n meddwl 'ond dyw e ddim i neud ag annibyniaeth!' Os na beth yw'ch ymateb – ma' angen i chi cal moment fach i feddwl. Fi'n siwr bod gymaint ohonoch chi, fel fi, yn ffodus iawn i fyw bodolaeth sicr iawn a breintiedig ar y ddaear 'ma, dos dim

lot am fodolaeth sawl un ohonom ni yn cael ei fygwth yn ddyddiol. Ond y'n ni gyd yn dweud ein dweud os oes 'na unrhyw fygythiad i ddyfodol ein hiaith – a ni wrth ein BODD pan ma pobol o'r tu-allan yn dangos cefnogaeth – yn bod yn *allies* i ni. Felly ma angen i ni fod yn *allies* i'r bobol sy'n byw o'n hamgylch sydd dan fygythiad oherwydd y ffordd maen yn cael eu hadnabod yn eu gwlad eu hunain – ni methu galw pobol allan am fod yn '*bigots*' o ran eu barn am beth sy'n cael ei weld fel diwylliant draddodiadol 'Gymreig' ac yna, troi rownd a *bod* y '*bigots*' at ddiwylliannau a bodolaethau lleiafrifol eraill o fewn ein gwlad ein hunain. Cymru yw ein cartre' ni gyd.

Ma angen dangos cefnogaeth o fewn y mudiad – tuag at ein dynoliaeth ni gyd yng Nghymru, cydnabod a dathlu y pethe sy'n ein gwneud yn unigolion a charfannoedd unigryw er mwyn medru sefyll yn gyffyrddus - gyda'n gilydd – i frwydro am ein Cymru rydd.

Wrth gael ein gwrthod am unrhyw rheswm – yn aml fydd rhywun yn lliwio'r holl bobol o'r diwylliant ma'r person hynny yn deillio ohonno a'r un frwsh. Ma hyn yn rhywbeth sy'n digwydd ymhobman ar draws pob diwylliant wrth gwrs. Yma yng Nghymru, yn gyffredinol iawn – yn hanesyddol ma' siaradwr Cymraeg o'r crud wedi bod yn fwy cysylltiedig gyda'r achos am annibyniaeth nag eraill am resymau lu, a'r rheswm pennaf falle yw oherwydd bod ein ymwybyddiaeth o'n hanes wleidyddol yn aml yn gryfach trwy ein gwersi Cymraeg – ma' hyn yn newid diolch byth!

Mae'n sefyll wrth rheswm na all unrhyw wlad ond oroesi trwy ddod yn annibynnol, ond i ffynnu hefyd – mae yna gymaint o esiamplau rhyngwladol o hyn. Fy hoff enghraifft yw Gwlad yr Iâ, a ddaeth yn annibynnol oddi wrth Ddenmarc yn 1944. Gwlad heddychlon ym mhob ystyr o'r gair – gwlad sydd heb fyddin ac felly'n gwario'r arian anferth hwnnw ar bethau hanfodol, megis talu cyflogau da i'w phobol ym mhob sector gwaith – ma'r tâl ar gyfartaledd cenedlaethol yn uchel, sydd yn cynnyddu teimlad o werth mewn unigolion, a thrwy hynny - hapusrwydd cenedl. Mae'n wlad sy'n harnesio ei ynnu gwyrdd mewn ffyrdd meistrolgar, ma'r bobol yn gysylltiedig iawn gyda'i natur anhygoel, ei hanes a'i llen gwerin. Mae hefyd yn wlad sy'n enwog am fod yn wrth-homoffobig ac yn barchus o'i phobl LGBTQ+, pobol o liw yn ogystal a'i chyflogau cyfartal i ddynion a menywod – ma' bob un unigolyn yn cael eu hystyried yn gyfartal. Gwrddes i ag un dyn yno o'dd yn gweud o'dd byth rhannu merched a bechgyn yn yr ysgol – ddim hyd yn oed mewn gwersi chwaraeon - sy'n golygu bod pobol o bob rhywedd yn medru gwneud a chystadlu a chydweithio ar yr un lefel – a'r diwrnod wedyn cafodd grwp mawr ohonom ein harwain ar antur wyllt ar un o glaciers mwyaf y wlad gan fenyw anhygoel ac anhygoel o gryf.

Ma angen cynrychioleth o bob

math o bobl i wneud i unrhyw fudiad dyfu. Ma' coedwig yn cryfhau pan ma' na amrywiaeth o goed yn tyfu ynddi – os taw dim ond un math o goeden sydd, ac ma' honno dan fygythiad – yna ma'r holl goedwig yn marw – ond gyda amrywiaeth o goed – mae'r goedwig yn goroesu, yn tyfu, yn ffynnu.

Ma angen clywed a phlatfformio lleisie amrywiol o fewn mudiad annibynnieth. Os taw canran fawr o'r un math o bobol sy'n cael eu clywed (ac mae'n bwysig nodi ei fod yn cael ei ddomineiddio gan ddynion – dwi ddim ishe lladd ar unrhyw unigolion ond ma angen merched, bois!), yna dyw'r mudiad yn amlwg ddim yn mynd i dyfu wrth rheswm – mae'n mynd i fod yn '*stagnant*' – '*preaching to the converted*' fydd hi am byth. Ma' angen i bobol deimlo yn saff o fewn y mudiad – eu bod yn medru lleisio eu barn, mynegi eu anghenion a bod yn bresennol heb unrhyw gasineb yn eu herbyn – ma cynnau casineb yn difethu bob dim – ond ma cynnau cariad a goddefgarwch yn cyfoethogi cenedl.

Wy'n dal i ddysgu am y pethe allai neud i ehangu fy ngoddefgarwch a charedigrwydd at bobol sy'n byw bywyde gwahanol i fi – menyw gwyn, Cymraeg iaith gyntaf. Fi'n neud camgymeriade ar y ffordd (ma'n siwr fydd rhai yn yr erthygl yma, a plis estynnwch mas i ddal fy llaw, esbonio a siarad). Rwy'n deall fy mod wedi gwneud achos dros y gymuned LGBTQ+ a menywod yn fwy na dim – achos ma'r cymunedau hynny yng Nghymry yn rhywbeth dwi'n eu hadnabod yn dda iawn, ac yn rhan ohonynt. Rwy'n gobeithio fydd na leisie pob mathe o gefndiroedd yn cael eu clywed trwy lyfr Melin Drafod, a diolch yn fawr iddyn nhw am y platfform yma.

Rwy'n trio fy ngore i gwestiynu fy hun ac ehangu fy nealltwrieth o bobol sy'n wahanol i fi, ma'n bwysig i mi herio beth yw 'Cymreictod' erbyn hyn ac fel mae'n edrych go-iawn. Ma'r esblygiad mor gyffrous! Yn profi gymaint o wlad anhygoel yw Cymru fach - ac ma'n holl bwysig bod yn amyneddgar a charedig wrth wrando ac addysgu ein gilydd.

Gyda phwyll, cariad a pharch – medrwn dyfu fel un.

Mae Carys yn gweithio ar draws y celfyddydau yng Nghymru a thu hwnt , boed yn actio, canu, darlledu, ysgrifennu neu gomedi - mae'n mwynhau'r amrywiaeth ma'r gwaith a'r profiadau yn rhoi i'w bywyd. Yn ferch o'r Tymbl, Sir Gâr - mae wedi ennill gwobrau di-ri am ei sioe wyddonol-gomedi, un-fenyw 'Lovecraft (Not the sex shop in Cardiff)' ac yn ymchwilio'r sioe fydd yn dilyn hwnnw ar hyn o bryd. Yn ddiweddar gwelwyd hi fel 'Nerys' yn 'Y Sŵn' ac fe ddaelledodd rhaglenni am hanes lenyddol Cymru i BBC Radio 4 yn ogystal a chanu yn y grwp 'Charlotte Church's Late Night Pop Dungeon.' Mae hi yn ymgyrchydd cryf dros annibyniaeth.



Independence means many things to many people. While conversations concerning wider political controls dominate the narrative, what everything comes back to is the people. What is best for those individuals living their day to day lives? Particularly those individuals who traditionally suffer more from discrimination, such as minority ethnics, disabilities, LGBTQ+, religions, and others. How will independence make life better for them?

I work as an author/historian, mainly in researching and promoting the history of sexual orientation and gender identity, namely lesbian, gay, bisexual, trans, and queer people plus others (LGBTQ+) and we need this history because diversity is not a modern phenomenon, it has existed since humans evolved and the mainstream narrative of history must change to reflect that. All diversities are woefully absent from the history books of nations.

What is needed are comprehensive histories that can be fed into mainstream histories, because at this time, that is what is lacking. Every year we have a series of celebratory events lasting a day, a week, or

DIVERSE INDEPENDENCE

NORENA SHOPLAND

a month such as International Women's Day, Lesbian Visibility Week, Black History Month or LGBTQ+ History Month (October and February respectively). On each occasion events and pop-ups appear to celebrate some aspect or other and then disappear and the box has been ticked. But people are 365, and need to be reflected as such.

However, many diversities suffer from a discrimination of disinterest, unless you have staff members or volunteers who drive projects forward, then events are often organised by passionate individuals or groups working from the outside.

How would the independence of Wales change this?

It has already started.

Wales is independently challenging the way we look at diversities influenced greatly by grants and plans from the Welsh Government.

In 2023 they published the LGBTQ+ Action Plan which, they state, aims to 'create a society where LGBTQ+ people are safe to live and love authentically, openly and freely as themselves' and embedding diversity in the national curriculum. In 2022 compulsory relationships and sexuality lessons began in Wales for children aged three to 16 under the Relationships and Sexuality Education (RSE) Code:

> Across the learning strands, curriculum content in RSE must be inclusive and reflect diversity. It must include learning that develops learners' awareness and understanding of different identities, views and values and a diversity of relationships, gender and sexuality, including LGBTQ+ lives.

This, of course, has caused controversy, and there are ongoing attempts to reverse the ruling.

The Welsh Government's LGBTQ+ Action Plan follows the Anti-Racist Action Plan, and as heritage consultant Marian Gwyn notes:

> Wales is being watched – I've attended conferences and meetings with people from the other constituent countries of the UK, where people have expressed their regret that their own governances are not promoting or supporting diversity in the same way as Wales (through policy and funding). Several have said that they are keeping an eye on what happens here to see how effective this move is. There's a long-burn on something like this, as you know, but what stood out to me is that it is known that Wales is trying something different. It's seen as being bold and that people don't know what the impact will be (neither do we). I've discussed this will a few people and they confirm similar conversations.[1]

Similarly, I am on the International Committee of LGBTQ+ History Months and Rodney Wilson, the founder of LGBTQ+ History Month in 1994, agrees Wales is somewhere to watch:

> The International Committee on LGBTQ+ History Months, with thirty-two members representing twenty locations around the world, is happy to have Norena Shopland as a founding member and representative of Wales. We closely follow what the Welsh government is making possible through its extraordinary leadership on LGBTQ education, history, and archival work -- truly setting a high standard toward which more countries, we hope, will aim.[2]

As well as the action plans, the Welsh Government funded a five-part training course on LGBTQ+ Language and History for local libraries, museums and archives (LMAs) and the key word here is 'local'. In all those celebratory periods there tends to be a reliance on celebrities and well-known events with little representation of the individuals who visit. The commissioned training works with LMAs to provide opportunities for local people to celebrate local life. The 2021/22 training received a positivity rate of 94% from participants who said they would recommend the course and the Welsh Government recommissioned it for 2023.

One of the outcomes of the training is the development of county timelines, ensuring every county in Wales has its own database of local people, allies and events that can be celebrated, the only country in the world to have this resource.

Action Plans and supportive investments have circular benefits because, as the old saying goes, success breeds success. In 2023 the Welsh Government provided several Anti-Racist grants and Glamorgan Archives partnered with Race Council Cymru, received funding to develop a free guide into the research and promotion of Minority Ethnic history in Wales based on the research techniques developed for Welsh LGBTQ+ history by myself and others. But why stop there - we can use these templates for anything and have a whole range of research guides and timelines for every diversity because, at the end of the day everyone has at least one diversity that, when added together, make up the whole of society.

Extensive work on diversity by many people in Wales is, as previously noted, being watched by other countries but what has been achieved so far is only the tip of the iceberg and so much more needs to be done.

So, imagine an independent Wales – a country putting people not politics first, a country that can lead the world in inclusivity.

1 Marian Gwyn, personal email

2 Rodney Wilson, personal email

Norena Shopland is an author/historian specialising in the history of sexual orientation and gender identity, particularly in reference to Wales. Her book Forbidden Lives: LGBT stories from Wales (Seren Books, 2017) is the first completely historical work on Welsh sexual orientation and gender identity. Queering Glamorgan and A Practical Guide to Searching LGBTQIA Historical Records (Routledge, 2020) have become very popular as toolkits to aid people in doing original research. A History of Women in Men's Clothes: from cross-dressing to empowerment (Pen and Sword Books, 2021) looks at thousands of individuals who cross-dressed, cross-worked, and cross-lived as men, and The Welsh Gold King and Women in Welsh Coal Mining look at gold mining and coal mining respectively.



Y BERLLAN
JON GOWER

In his Buchedd Garmon Saunders Lewis creates an analogy between Wales and a vineyard, one that has been entrusted into one's care, to be passed down from generation to generation:

Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw
Cymru fy ngwlad,
I'w thraddodi i'm plant
Ac i blant fy mhlant
Yn dreftadaeth dragwyddol;
orchard of our country.

This develops into a rallying cry, to defend the orchard from swine which are set to descend upon it. But I'll just pause at the idea of a vineyard.

This is the time of what might be called The Great Planting, as a national forest is created in Wales. It is not without its problems but at least it's showing care for the earth and for the planet and all its myriad life forms we seem to be systematically hell bent on destroying.

If you want to understand the degree of threat, to hear the screaming bells of the climate emergency, but also see how it works in a Welsh context, I would urge you to read the recently published 'Sarn Helen' by the Llanspyddid-based author Tom Bullough.

Tom walked from Neath to north Wales along the old Roman road, writing, on one hand a funny, revealing and consistently attentive travel book. But he punctuates

the accounts of his journey with interviews with climate scientists and other experts. The resulting volume is deeply affecting because urgently written, an exhortation to us all to act, and act now.

Reading it, one thinks of the American author Rachel Carson's trilogy of books about the sea and of her writings about pesticides which led eventually to many of them being banned. 'Sarn Helen' should perhaps be made available, discussed widely and used as a springboard.

A model for this comes from Scotland, where they ensured that a copy of Robert Macfarlane and Jackie Morris' book 'Lost Spells' aimed at reviving once-common "natural" words excised from the Oxford Junior Dictionary. It thus celebrated the disappearing words of everyday nature, from acorn and wren to conker and dandelion was distributed to all 2,681 schools in Scotland as the result of a crowdfunding campaign by Jane Beaton, a school bus driver.

But I've left the vineyard for a while. Growing things requires care and knowledge about what living things need. And in an adapted version of Saunders Lewis' vinous metonym for Wales I'd like to suggest we plant an orchard. Not a National Orchard, which sounds a bit too formal. Just Y Berllan, The Orchard, a place of apples. Like Afallon, Avalon, the Arthurian nirvana.

The apples would be Welsh apple types, planted in places they have long grown, and so benefitting from the work done by many in finding these old varieties. Planting them in schools would be an obvious idea, not least because of the old saw "An apple a day keeps the doctor away" but also because they seem to celebrate the specialness of places, of local traditions and history. The Anglesey Pig Snout and Afal Siampên from Bontnewydd. Pig Aderyn or Bird's Bill from Llandudoch. The Cadwaladr from Brecon, the eponymous Nant Gwrtheyrn from Llŷn and Gwŷr, or Channel Beauty from Gower.

We planted such an orchard in our small garden in Cardiff, after men with jackhammers took up what had been a solid mass of concrete. When I say orchard I should point out that there are only five trees but they are placed where they would be on the map of Wales, so Afal Enlli, a rare type only discovered on Bardsey island in 1999 is in the northwestern corner and so on.

Last year we had enough of a harvest to keep us and the neighbours going and I took the surplus on my pushbike to Ffloc, a local café where they made some Canton compote to serve with breakfast. No plastic was involved, no supermarket distribution centre, no fuel either.

As I write this a song thrush is busy looking for snails under our Denbigh Plum tree, which is

studded with little fruit, that at the moment look like miniaturised greengages. As the apple trees threw shade against the walls of the garden so wood sorrel appeared as if from nowhere. It then grew in abundance, and we can use its leaves in salads. There are dragonflies around the pond in the middle of the orchard where, a few months ago, the frogs at night were a veritable male voice chorus.

My friend, the writer Mike Parker recently made a speech in Swansea in which he encouraged us to be kind. In this he was echoing Jan Morris, another consistent celebrant of kindness. It's the sort of kindness inherent in a country that properly offers sanctuary to refugees and asylum seekers. You might even see kindness as a word that can stand for social justice, or suggest the care we need to show by making child poverty a thing of the past.

There is so much to do and perhaps planting apple trees isn't high on the list.

But there is a symbolic weight to the idea, and a harvest that can be gathered. Gwnewch y pethau bychain. Do the small things.

And, once planted, the trees make their own way to the sun.

Jon Gower has over forty books to his name, in Welsh and English, including 2023's The Turning Tide: A Biography of the Irish Sea, and Y Diwedd, which completes his Welsh language crime trilogy, published in 2022. He is also the author of The Story of Wales which accompanied the landmark BBC series, An Island Called Smith which gained the John Morgan Travel Writing Award, and Y Storïwr which won the Wales Book of the Year award. He is a former BBC Wales arts and media correspondent and was for many years the presenter of Radio Wales' arts' programme First Hand.



MAE POB UN OHONOM YN BETHAU BYCHAIN

NIA EDWARDS-BEHI

Pwy ydw i i ‘sgwennu am annibyniaeth? I ‘sgwennu am weledigaeth bersonol? Neb penodol, neb amlwg gymwys; nid ymgyrchydd na rhywun sy’n gweithio ar bolisi.

Oes, mae gen i gefndir a phrofiad sydd i raddau’n berthnasol: cyfnod o wleidydda lleol, cyfnodau o weithio i sefydliadau cenedlaethol, profiad o ddweud fy nweud ar blatfformau digon sylweddol. Platfform fel y llyfr hwn.

Braint, wastad, yw medru wedi gwneud hynny a chael gwneud hynny rŵan. ‘Dw i’n fwriadol pan ‘dw i’n defnyddio’r gair ‘braint’ – *checia dy fraint*, ynde. Mae’n idiom digon pegynol erbyn rŵan, ei ystyr wedi’i golli rhywle yn nisgwrs y cyfryngau cymdeithasol.

Gall niferoedd helaeth eraill siarad ac ysgrifennu’n well na fi ar beth sydd angen ei newid er mwyn sicrhau Cymru deg, lewyrchus a rhydd, yn bennaf y rheini sy’n wynebu anghyfartaledd oherwydd y pethau gwahanol sy’n cyfrannu at eu hunaniaeth nhw.

Ni fydd annibyniaeth i Gymru yn werth dim os na fydd newid sylfaenol i’r anghyfiawnder a’r anghynhwysedd sy’n bodoli’n bresennol. Digon hawdd yw rhoi’r bai ar San Steffan neu unigolion tu allan i Gymru ond mae sefydliadau a chymdeithasau Cymreig yn parhau’r anghydbwysedd hefyd. Mae hiliaeth, trawsffobia, homoffobia, ablaeth ac anghydbwysedd cyfoeth ar ein stepan drws.

Mae gen i ddarlun o gymdeithas y dyfodol sy'n rhydd o strwythurau angeuol y presennol: strwythurau o bŵer sy'n treiddio'n gwaith, ein hiechyd, ein hamdden, ein bywydau. Strwythurau sy'n aml iawn yn taro rhai yn fwy nag eraill, sy'n troi cymydog yn erbyn cymydog, ac sy'n rhwystr enfawr i wir ryddid unrhyw gymdeithas neu wlad fach fel hon.

Ni fydd eistedd o gwmpas yn gyfforddus, yn aros am ganlyniad refferendwm cadarnhaol cyn herio a diddymu'r strwythurau yma, yn ein rhyddhau ni rhag yr hyn sy'n achosi gymaint o annhegwch ar hyn o bryd.

Ar hynny, ac fel i mi ddweud yn barod, mae eraill yn medru arwain ac ysbrydoli yn well na fi. Ond, mae herio anghyfartaledd a'r strwythurau sy'n ei achosi yn ein pŵer ni i gyd, i raddau gwahanol, ac yn angenrheidiol. Mae'n rhaid gweithredu i greu newid: mae ymgyrchwyr gwrth-hiliaeth wedi bod yn dweud hynny ers blynyddoedd. Mae'n hen bryd gwrando.

Gall gweithredoedd bach, syml, torfol osod sylfaen am newid syfrdanol. Mae herio natur strwythurol a sefydliadol anghyfiawnder mewn ffordd feunyddiol yn rhywbeth gallwn ni i gyd ei wneud. Wrth gwrs, mae angen ymgyrchu caled hefyd, ond mae'r pethau bychain – fel 'dyn ni'n gwybod – yn bwysig.

Yn sylfaenol mae yno ddwy weithred digon syml a chyfarwydd gall pawb gadw mewn cof wrth herio anghyfiawnder cymdeithasol: gwrando a siarad. Mewn geiriau eraill: dysgu ac addysgu. Derbyn a rhannu. Tawelwch a thwrw.

Rhaid gwrando a dysgu gan y rheini sy'n profi'n uniongyrchol y pethau efallai nad ydym ni'n hunain. Rhaid i ni wrando pan mae pobl yn dweud fod y gweithle, yr ysgol, y brifysgol neu'r blaid wleidyddol yn le peryglus iddyn nhw. Rhaid i ni dderbyn pan mae digon yn dweud nad yw'r prif gwnstabl, y prif weithredwr, y gwleidydd, yr is-ganghellor na'r cyfarwyddwr yn gweithredu'n deg, fod angen newid.

Mae grym gyda sefydliadau'r cyfryngau i chwyddleisio'r profiadau yma, ond nid dyna sydd o reidrwydd yn digwydd chwaith. Dyna lle mae angen i bob un ohonom weithredu gan ddilyn, gwrando a darllen lluosogrwydd o leisiau gwahanol. Rhaid i bob un ohonom fod yn barod i deimlo'n anghyfforddus a chael ein herio gan y lleisiau yma.

Wedi gwrando, rhaid i ni fod yn barod i siarad hefyd – ond nid heb y parodrwydd i fod yn anghywir, a chau ceg. Mewn cymdeithas sy'n anghytbwys, ni ddaw gydbwysedd heb anesmwythder a rhaid ei gofleidio. Wrth siarad, nid siarad dros eraill sydd ei angen, ond rhannu lleisiau eraill. Cynnig, rhannu a rhoi le ar blatfform i'r rheini sy'n profi effeithiau'r anghyfiawnder mwyaf.

Mae addysgu ein gilydd - ffrindiau, cyd-weithwyr, teulu - yn hollbwysig. Mae pob un ohonom ni ar daith o ddysgu am brofiadau eraill ac mae rhannu adnoddau, gwybodaeth a herio'n gilydd yn gefnogol yn ffordd o wneud hynny. Y mwyaf ohonom sy'n adnabod y sefydliadau a'r strwythurau o'n cwmpas ni, ac sy'n deall nad oes tegwch na chyfiawnder yn eu plith, y mwyaf ohonom sy'n eu herio ac - yn y pendraw - eu newid.

'Dw i'n gobeithio fod hi'n werth atgoffa'n hunain o ba mor syml ond pwysig yw cefnogi'r rheini sy'n dioddef fwyaf, drwy herio'r rheini sy'n achosi gymaint o ddioddefaint. Mae'n angenrheidiol fod Gymru annibynnol yn rhydd o anghyfiawnder, annhegwch, hiliaeth, trawsffobia, ablaeth, homoffobia ac anghydbwysedd dosbarth cymdeithasol.

Mae Nia Edwards-Behi wedi'i hymdrochi yn niwylliant ffilm Cymru ers dros 15 mlynedd, ac mae ganddi brofiad yn, ac angerdd dros, y celfyddydau a'r cyfryngau yn ehangach. Gyda phrofiad mewn rhaglennu, marchnata, ysgrifennu a siarad cyhoeddus, trwy gydol ei gyrfa mae Nia wedi arbenigo mewn materion cynrychiolaeth, cynhwysiant a mynediad.



INDEPENDENT WALES

JOHN BARNIE

It is easy to make a wish-list for the independent Wales one would like to see. Mine would be an egalitarian republic, devoid of deference based on wealth and power. It would be tolerant and welcoming of difference, and it would be international in outlook, re-joining the European Union at the earliest opportunity.

It would of course be a nation of two languages and bilingual in a true sense (I will come back to that). Independent Wales would also be a pioneer in green energy though not at the expense of the wild places of our land and the wildlife it contains.

Agriculture would be re-examined with farmers encouraged to return to the kind of mixed farming that existed before the Second World War. Attention would also be paid to the former great industrial regions of the South and North-East, with emphasis on the development of small-scale industries operated on a co-operative basis where feasible.

Such an independent nation would prize education, both vocational in the form of apprenticeships and degrees in engineering and applied sciences, and in the humanities and arts which are fundamental to a well-rounded society, not a luxury to be tolerated but starved of funds. Above all, the arts should be left to their own inventive ways and not manipulated by grant-giving bodies as a form of social engineering.

There is more one could add, but that will do for now because those who oppose independence

will already be shaking their heads. Wales has a population of three and a half million who may (just) be a nation but who have not had a viable state since the Middle Ages. Wales is too small, opponents will argue; too deeply integrated into England's economic, political, and legal structures. And where will the money come from? Without the subventions of the British State, Wales would find itself impoverished. No, for Wales it is all too late.

It is possible to concede there is some truth to these objections yet still argue that independence is a valid and worthwhile goal. Take size for a start. Denmark has a population of 5.8 million, only slightly larger than that of Wales, yet no one would question its viability or right to exist. If it is argued that Denmark nevertheless has a long history as a nation-state with well-established structures of government, so the comparison is hardly between equals, what about the Baltic states, Estonia with a population of 1.3 million, Latvia, 1.9 million, Lithuania, 2.8 million? These nations have had a history of submission to foreign powers, with only a brief period of independence after the First World War before being occupied by Nazi Germany, then incorporated into the Soviet Russian empire, yet with the collapse of the USSR they once again asserted their right to exist as independent nation-states.

Moreover, they have a linguistic mix which to a degree mirrors our own. Lithuania has 140,000 Russian speakers, for example; Estonia, 315,000; and Latvia 905,500. How a state treats its minorities has long been an indicator of its democratic health, and the Baltic states have not always dealt wisely with their Russian and Russian-speaking citizens. Moreover, the comparison with Wales is partial and unbalanced because here the indigenous language, Welsh, is spoken by the minority, whereas the language of our dominant neighbour to the East is very much in the ascendent.

Which leads back to the question of bilingualism. Where a nation has two languages, bilingualism works best, it seems to me, when they have parity in the number of speakers, or where the minority language is supported by its majority use elsewhere, as is the case with Russian in the Baltic states. For Welsh, it is very different. Wales is its only territorial base and the language must live or die here where it is up against the majority language, English, one of the most powerful languages in the world. In Wales, bilingualism means that all Welsh speakers are bilingual in English out of necessity, whereas the majority of English speakers, especially those who move here from England, feel no such compunction to learn Welsh.

There have been counter-measures: the introduction of bilingualism in the school system, especially, and growing interest in learning Welsh in areas like the Valleys. There has also

been a significant number of English incomers who have learnt Welsh to a very high level, contributing in important ways to the cultural and intellectual life of the Welsh speaking community. Nonetheless, as the latest census figures show, the number of Welsh speakers continues to decline, because the cultural and political power of English means there is a steady seepage from Welsh to English, especially as more and more English people move here or buy second homes. This is one of the greatest cultural challenges facing an independent Wales, and I don't know what the answer is.

Since I am not a politician, an educationist, or an economist, much of what I have said will be dismissed as naïve by those who oppose independence. One thing, however, I am sure of: while independence would bring many challenges in its wake, it would also lead to a resurgence of reliance on ourselves as a nation and a determination to set our own course in the world.

To achieve this we must slough off our 'cultural cringe' vis-à-vis England's dominance in politics and culture. I wonder how many Welsh people knelt before their television sets on May 6th, to swear the 'People's Oath of Allegiance' to England's new king—a PR gimmick aimed at sustaining a defunct monarchy and a contrived 'Britishness'. Wales can do better than this—if we have the confidence; if we have the will.

John Barnie

John Barnie is from Abergavenny. He lectured at Copenhagen University from 1969-82 and was editor of Planet from 1990-2006. He is a poet and essayist whose latest collection of poems, Dunes of Cwm Rheidol, will be published by Cinnamon in October 2023. He is a blues guitarist and has played in several bands including Y Bechgyn Drwg (with Twm Morys, Iwan Llwyd and Nigel Jenkins). He lives in Comins Coch near Aberystwyth.



AM Y FELIN DRAFOD

MAE ANNIBYNIAETH YN GWESTIWN SY'N MYND I'N HWYNEBU FEL CENEDL YN YSTOD Y BLYNYDDOEDD I DDOD.

Ni yw'r unig felin drafod sy'n edrych ar y llwybr at, a'r cwestiynau polisi sy'n codi yn sgîl, annibyniaeth i Gymru.

Mae ein melin drafod yn cefnogi, hwyluso ac yn gyfaill beirniadol i'r mudiad annibyniaeth ar lawr gwlad.

Nid yw'r Felin Drafod yn perthyn i'r un blaid wleidyddol. Rydym yn canolbwyntio ar roi sylw manwl i'r cwestiynau sy'n codi'n sgîl y gefnogaeth gynyddol i annibyniaeth.

Sut i hwyluso annibyniaeth flaengar, nid annibyniaeth er lles annibyniaeth yn unig, yw ein blaenoriaeth. Rydym yn trin a thrafod datrysiadau i argyfyngau mawr ein hoes – o newid hinsawdd a lleiafrifoli ieithoedd i warth tlodi a hiliaeth – yma ac o amgylch y byd.

Mae gwir angen paratoi'n drylwyr ar gyfer Cymru annibynnol. Bydd y cwestiwn yn ein hwynebu'n hwyr neu'n hwyrach, ac mae Melin Drafod yma i baratoi'r ffordd.

AELODAU'R PWYLLGOR CENEDLAETHOL MELIN DRAFOD, 2023-24

- Steve Blundell
- Mererid Boswell (Swyddog Aelodaeth)
- Talat Chaudhri (Cadeirydd)
- Osian Elias (Trysorydd)
- Jonathan Evershed (Is-Ysgrifennydd)
- Llywelyn ap Gwilym
- Colin Nosworthy (Ysgrifennydd)
- Harriet Protheroe-Soltani
- Dilwyn Ellis Roberts
- Dan Richards
- Bethan Sayed



ABOUT MELIN DRAFOD

INDEPENDENCE IS A QUESTION WHICH IS GOING TO FACE US AS A NATION IN THE YEARS AHEAD.

Melin Drafod is the only think tank which is looking at the path, and the policy questions related, to independence for Wales.

Our think tank supports, facilitates and is a critical friend of the grassroots independence movement.

Melin Drafod is not affiliated to any political parties. We concentrate on giving detailed attention to the questions raised by the rising support for independence.

Our priority is promoting progressive independence, not independence for its own sake. We discuss solutions to the major crises of our age – from climate change and language minoritisation to the scourges of poverty and racism – both here and around the world.

There is a real need to thoroughly prepare for Welsh independence. Sooner or later the question will face us, and Melin Drafod is here to prepare the way.

MELIN DRAFOD NATIONAL COMMITTEE MEMBERS, 2023-24

- Steve Blundell
- Mererid Boswell (Swyddog Aelodaeth)
- Talat Chaudhri (Cadeirydd)
- Osian Elias (Trysorydd)
- Jonathan Evershed (Is-Ysgrifennydd)
- Llywelyn ap Gwilym
- Colin Nosworthy (Ysgrifennydd)
- Harriet Protheroe-Soltani
- Dilwyn Ellis Roberts
- Dan Richards
- Bethan Sayed


MELIN
DRAFOD